

premier 



Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

2022-2026

## Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol.....</b>	<b>3</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>8</b>
<b>2. Methodoleg.....</b>	<b>13</b>
<b>3. Nodi'r Prif Faterion Demograffig ac Economaidd-Gymdeithasol.....</b>	<b>19</b>
<b>4. Trosolwg o'r Ddarpariaeth Gofal Plant Bresennol a Chanlyniadau Arolygon Darparwyr a Gwarchodwyr Plant.....</b>	<b>37</b>
<b>5. Canlyniadau o'r Arolwg Rhieni.....</b>	<b>65</b>
<b>6. Canlyniadau Arolygon Plant.....</b>	<b>86</b>
<b>7. Partneriaeth a Gweithio Trawsffiniol.....</b>	<b>89</b>
<b>8. Ateb i'r Cwestiwn Allweddol.....</b>	<b>93</b>
<b>9. Dadansoddiad o'r Bwlch a Meysydd i'w Gwella.....</b>	<b>95</b>
<b>10. Cynllun Gweithredu.....</b>	<b>96</b>
<b>Atodiad 1: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau.....</b>	<b>102</b>
<b>Atodiad 2: Tablau.....</b>	<b>106</b>

## **Crynodeb Gweithredol**

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn ehangu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol ac yn arwain y gwaith o gydlynu ymdrechion ar draws gwasanaethau i lunio a sicrhau gwasanaethau plant, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Ofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni.
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n ymwneud â gofal plant i rieni, darpar rieni a'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am blentyn.

Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ar gyfer eu hardal. Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mehefin 2022, gyda chymorth gan Grŵp Cyngori Premier. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd drwy nifer o ffurfiau o ymgynghori, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gwblhawyd gan ddarparwyr gofal plant, arolwg rhieni Llywodraeth Cymru ac arolygon ar-lein gyda chyflogwyr, rhanddeiliaid a phlant.

Mae'r adroddiad hwn ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn adlewyrchu'r cyd-destun penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant yn Wrecsam, sy'n cyd-fynd â'r 47 ward a'r 3 ardal gymunedol sy'n ffurfio'r sir. Mae crynodeb llawn o brif ganfyddiadau'r ymchwil a'r ymgynghoriad ar ddemograffeg ar gael yn [Atodiad 1](#).

## **Trosolwg o gyd-destun demograffig ac economaidd awdurdodau lleol**

Er mwyn ystyried i ba raddau y gallai fod angen i gynllunwyr gofal plant yn Wrecsam barhau i flaenoriaethu eu hymdrechion i helpu i gychwyn neu ysgogi rhagor o leoedd gofal plant mewn ardaloedd daearyddol penodol ac wedi'u targedu, cynhaliwyd dadansoddiad o gyd-destun demograffig ac economaidd.

Mae'r data diweddaraf am y boblogaeth ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bydd y grŵp oedran hwn yn gostwng yn raddol, sef gostyngiad o 496 o blant ar draws Wrecsam rhwng 2020 a 2026. Mae hyn yn dilyn y duedd bod cyfraddau genedigaethau yn Wrecsam wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall o 2017-2020, o 274. Ar ben hynny, rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Wrecsam yn gostwng 1,751 rhwng 2018-2027. Mae hyn yn awgrymu y gall y galw am ofal plant leihau.

Mae'r sir yn dangos rhywfaint o anghysondeb wrth ystyried lefelau diweithdra a phlant mewn aelwydydd hawlwr nad ydynt yn gweithio, yn dibynnu i raddau helaeth ar y ward dan sylw. Canol Wrecsam sydd â'r nifer uchaf o blant sy'n byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ar 1,785 o rai 0-18 oed, gyda Quennsway, Wynnstay (o bell ffordd y ddau uchaf ar draws Wrecsam ar wahân i Blas Madog a Choedpoeth) a Chartrelele y rhai uchaf yn yr ardal honno, tra mai Gogledd Wrecsam sydd â'r lleiaf, gyda llefydd fel Marford a Hoseley a'r Orsedd â'r nifer isaf o blant yn byw ar aelwydydd hawlwr di-waith. Er bod y niferoedd hyn yn absoliwt yn hytrach na chymharol, maent yn dal i fod yn arwydd o ardaloedd lle mae llawer, neu ychydig iawn, o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. Gallai hyn olygu bod y galw am ofal plant yn is yn y manau hyn nag y dylai fod, oherwydd y rhwystrau o ran angen a fforddiadwyedd.

Yn ôl data gan Ystadegau Cymru, mae 26.5% o boblogaeth Wrecsam yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae ethnigrwydd plant yn Wrecsam yn weddol debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn ôl cyfrifiad cenedlaethol 2011, gyda 13% o blant 5 oed a hŷn yn Wrecsam yn nodi eu bod o gefndir Prydeinig heb fod yn wyn.


Gall effeithiau COVID-19 a Brexit arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n dod i Gymru ac o bosibl arwain at fwy o bobl yn gadael yn hytrach na dod i mewn, gan arwain at allfudo net negyddol. Mae'r rhesymau posibl dros hyn yn niferus. Yn gyntaf, mae Arsyllfa Mudo Rhydychen yn dadlau, gan fod System Mewnfudo Seiliedig ar Bwyntiau newydd y DU yn gosod mwy o gyfyngiadau ar nifer y gweithwyr UE â llai o sgiliau sy'n cael dod i'r DU, y bydd hyn yn debygol o gyfrannu at ostyngiad mewn mudo a allai effeithio ar awdurdodau lleol fel Wrecsam.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam yn cynnig datblygu 6,250 o gartrefi newydd hyd at 2028. Y wardiau neu'r aneddiadau sydd â'r nifer fwyaf o anheddau y disgwylir iddynt gael eu hadeiladu yw Rhosddu, Acrefair/Cefn Mawr, Brymbo, Llai a Rhiwabon. Mae'n bosibl, er gwaethaf gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth ar draws Wrecsam, y gallai'r galw am ddarpariaeth gofal plant yn y dyfodol gynyddu yn yr ardaloedd hyn wrth i deuluoedd newydd symud i'r datblygiadau.

Gwelwyd bod gan Wrecsam 15.4% o ddisgyblion gyda rhyw fath o Anghenion Dysgu Ychwanegol, roedd hyn yn uwch na'r tair sir gyfagos, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Phowys. Roedd hefyd yn uwch na'r Cyfartaledd Cenedlaethol.

### Crynodeb o'r ddarpariaeth sydd ar gael

Pan gwblhawyd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, roedd y cyflenwad o ofal plant yn Wrecsam fel a ganlyn:



Mathau o Darparwyr yn Wrecsam

Mathau o Darparwyr yn Wrecsam	%
Gofal Diwrnod Llawn	44.2%
Gwarchodwr plant	24.5%
Gofal diwrnod sesiynol	17.7%
Gofal alln o ysgol	12.2%
Dapariaeth chwarae mynediad agored	1.4%

Math o Ofal Plant	Cofrestredig	Wedi'i atal	Anghofrestredig/Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol
Lleoliadau Gofal Dydd Llawn	66	0	0
Gwarchodwyr Plant	46	6	0
Gofal y tu allan i'r Ysgol (Mae gofal y tu allan i'r ysgol yn cynnwys clybiau cyn ysgol, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau)	22	0	22
Gofal Dydd Sesiynol	28	0	0
Crèche	0	0	0
Nanis	0	0	0
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	2	19	0
Sesiynau heb fod yn rheolaidd	0	0	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>164</b>	<b>25</b>	<b>23</b>

### Y prif bwyntiau o ran y defnydd presennol/galw yn y dyfodol

Yn ôl canfyddiadau data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth 2021, mae lefelau uchel o swyddi gwag ym maes gofal plant yn Wrecsam, gyda 2,296 o swyddi gwag ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi gwag hyn ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol a darpariaeth gofal dydd llawn yn y drefn honno. Y wardiau sydd â'r nifer uchaf o swyddi gwag ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol yw Grosvenor, Holt a Brynyffynnon; ar gyfer gofal dydd llawn, y wardiau sydd â'r nifer uchaf o swyddi gwag yw Owrtyn (145), Bryn Cefn (83), Parc Borrass (51), a Holt (50). Ar hyn o bryd, mae nifer sylweddol o swyddi gwag ar gyfer Lleoliadau Addysg Gynnar (330).

Yn ôl data a gasglwyd o'r SASS, ar hyn o bryd mae 195 o blant ar restr aros am ofal plant ledled Wrecsam. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn aros am ofal hanner diwrnod neu ofal diwrnod llawn. Y ward gyda'r nifer uchaf a mwyaf arwyddocaol o blant ar restr aros, ar gyfer gofal hanner diwrnod (PM), yw Grosvenor gyda 65 o blant. Er bod nifer fach o blant hefyd ar restr aros ar gyfer Lleoliad Addysg Gynnar, mae lefel uchel o swyddi gwag, sy'n awgrymu y gall rhai rhieni fod yn aros am le mewn lleoliad neu fath penodol o leoliad.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant yn y sir wedi cofrestru ar hyn o bryd i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed ac ar hyn o bryd mae 26 o ddarparwyr sy'n cael cyllid i ddarparu darpariaeth Dechrau'n Deg. Graddlwyd canran uchel o ddarpariaeth gofal plant yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol' o ran ansawdd y gofal ac mae'r rhan fwyaf o rieni wedi dweud eu bod yn hapus gydag ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Dim ond 4 darparwr sydd wedi cael gradd 'Digonol' mewn 2 faes neu fwy, ac mae pob un ohonynt wedi'u lleoli yng Ngogledd a De Wrecsam.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant yn Wrecsam yn rhugl yn y Gymraeg. Dywedodd 12 o'r 147 lleoliad a arolygwyd eu bod yn siarad Cymraeg yn bennaf ar hyn o bryd. Mae 20 allan o 147 ar hyn o bryd yn darparu Cynnig Gweithredol Yr Iaith Gymraeg. Mae'r lleoliadau hyn sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg wedi eu lleoli ledled y sir yn Grosvenor, Hermitage, Rhosnesni, Coedpoeth, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Cefn a Phant. Mae hyn yn awgrymu bwlch posibl o ran y ddarpariaeth Gymraeg yng ngoleuni canran y boblogaeth sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl

O dymor yr haf 2021, nodwyd yn ffurfiol bod gan 329 o blant Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anabledau le gofal plant cofrestredig yn Wrecsam. Nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gofalu am unrhyw blant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd er bod gan dros ddau o bob pump o ddarparwyr o leiaf un plentyn sydd wedi cofrestru gyda'u darpariaeth sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anabledau.

Roedd gwahaniaethau ymysg darparwyr sy'n dweud eu bod wedi'u hyfforddi neu'n gymwys i ofalu am blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd data o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn dangos bod gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal dydd llawn, darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol a darparwyr gofal dydd sesiynol drefniadau ar waith i ddarparu ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anghenion meddygol cymhleth. Fodd bynnag, roedd nifer y gwarchodwyr plant a ymatebodd mai eu cyfrifoldeb hwy oedd gwneud y trefniadau hynny yn sylweddol is.

Er mai'r amser dechrau mwyaf cyffredin ar gyfer darparwyr gofal plant oedd cyn 8am, ychydig iawn o leoliadau oedd yn cynnig gofal plant ar ôl 6pm. Ar hyn o bryd, dim ond 4 darparwr sy'n cynnig gofal plant gyda'r nos ar ôl 6pm, yn Grosvenor, Maesydre, Brychdyn Newydd ac Esclusham. Mae llai yn darparu gofal dros nos yn y sir ar hyn o bryd, sef dau. Mae un yn Rhosnesni a'r llall yn Dwyrain a De Gwersyllt. Dim ond dau ddarparwr sy'n darparu gofal plant ar benwythnosau ar hyn o bryd, yn Ne a Chanol Wrecsam.

Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau yn gyffredinol dros y 2 flynedd ddiwethaf, o ganlyniad i gau busnesau nad ydynt yn hanfodol a phobl yn gweithio gartref. Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant yn yr ardal eu bod wedi cau dros dro yn ystod y pandemig, gydag 8% yn dweud mai dim ond am 6 mis arall y byddent yn gallu rhedeg eu darpariaeth o ganlyniad. Ymatebodd nifer sylweddol o ddarparwyr bod llai o hyfforddiant ar gael oherwydd y cyfyngiadau, gyda'r mwyafrif yn dweud nad oeddent yn gallu cwblhau rhai cymwysterau fel un o'r effeithiau niweidiol.

### **Y prif rwystrau i ddarpariaeth gofal plant a mynediad at ofal plant**

Y rhwystrau mwyaf i gael gofal plant a nodwyd gan rieni a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru oedd tarfu ar swyddi presennol a wynebu problemau wrth geisio cael swydd newydd, oherwydd nad oeddent yn gallu cael gofal plant ar adegau priodol.

Dyweddod rhieni sydd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fod diffyg fforddiadwyedd, hyblygrwydd a lleoliad yn broblemau allweddol wrth chwilio am ddarpariaeth gofal plant. Ar gyfer teuluoedd sy'n siarad Cymraeg, soniwyd yn benodol am gost, pellter, diffyg hyblygrwydd, a diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhwystrau allweddol i ddarpariaeth gofal plant.

Derbyniwyd 296 o ymatebion gan rieni/gofalwyr ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sy'n cynrychioli 2.1% o'r holl ymatebwyr ledled Cymru. Er bod nifer yr ymatebion gan rieni/gofalwyr wedi cynyddu 27.6% ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant blaenorol, dim ond cyfran fach o'r 135,466 o drigolion y sir yw'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein, ac felly dylid cydnabod cyfyngiadau'r data isod.

### **Anghenion/bylchau heb eu diwallu**

O'r ymchwil a gynhaliwyd drwy'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, mae'r bylchau canlynol sy'n dod i'r amlwg yn y sector gofal plant yn Wrecsam wedi cael eu nodi. Mae Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddatblygu sy'n mynd i'r afael â'r bylchau hyn a bydd crynodeb o'r camau gweithredu arfaethedig yn cael ei gynnwys yn fersiwn terfynol yr adroddiad hwn.

### **Posibilrwydd o ddiffyg darpariaeth Gymraeg**

Yn ôl data SASS, nid oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg. Dywedodd 12 lleoliad eu bod yn siarad Cymraeg yn bennaf a dywedodd 20 eu bod yn cynnig y Cynnig Gweithredol Iaith Gymraeg. Mae'r lleoliadau hyn i gyd wedi'u lleoli yn yr un 8 ward (Trefnydd, Hermitage, Rhosnesni, Coedpoeth, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Cefn, a Phant). Mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd yn duedd sy'n bodoli yn nata'r arolwg rhieni. Dywedodd 22 o rieni y byddent yn hoffi cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny oherwydd diffyg darpariaeth. Byddai hyn yn awgrymu bod bwlch yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### **Effaith y pandemig**

Nododd llawer o ddarparwyr nad oeddent yn gallu cael gafael ar hyfforddiant yn ystod y pandemig, ac roedd bron i un rhan o ddeg o ddarparwyr yn teimlo na fyddent yn gallu cynnal eu busnes yn ariannol y tu hwnt i'r 6 mis nesaf. Roedd llawer o ddarparwyr yn ansicr ynghylch sefydlogrwydd eu darpariaeth gofal plant yn y dyfodol. Bydd effaith y pandemig yn cael ei theimlo ar draws pob sector am gyfnod sylweddol, ac efallai y bydd angen i ddarparwyr gael gafael ar hyfforddiant, adnoddau neu gyllid ychwanegol er mwyn sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar y sector gofal plant yn Wrecsam. Nid oedd ymgynghori â phlant yn ddigon sylweddol i ddod i gasgliadau ynghylch effaith y pandemig ar farn plant am ofal plant.

## 1. Cyflwyniad

Grŵp Cyngori Premier (PAG) i gyflwyno Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Ebrill 2022. Comisiynwyd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn i ddiweddarau canfyddiadau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd drwy nifer o ffurfiau o ymgynghori, Arolygiaeth Gofal Cymru, data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gwblhawyd gan ddarparwyr gofal plant ac arolygon ar-lein gyda rhieni a phlant.

Mae'r adroddiad hwn ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn adlewyrchu'r cyd-destun penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant yn Wrecsam yn hydref 2021. O ystyried hyn, mae'r adroddiad hwn yn ceisio deall yr angen am leoliadau gofal plant, yn ogystal â'r galw gan rieni am leoedd ar lefel leol.

### 1.1 Y cyd-destun strategol ar gyfer digonolrwydd gofal plant

Fel un o ofynion [Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 \(Asesiadau Awdurdodau Lleol\) \(Cymru\) 2016](#), mae awdurdodau lleol yn paratoi asesiadau o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant (Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal bob pum mlynedd a gofynnir iddynt adolygu'r rhain.

Mae'r Ddeddf yn ehangu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn atgyfnerthu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio o'i fewn – mewn partneriaeth â'r sector preifat, gwirfoddol, annibynnol, cymunedol a'r sector a gynhelir – i lunio a sicrhau gwasanaethau plant ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni. Mae hwn yn gam angenrheidiol tuag at sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol, gan alluogi awdurdodau lleol i ganfod bylchau a sefydlu cynlluniau gweithredu i ddiwallu anghenion gofal plant rhieni sydd angen gweithio neu hyfforddi.

Wrth i gyfyngiadau COVID-19 cenedlaethol gael eu llacio o ddiwedd 2021 ymlaen, mae llawer o ddarparwyr gofal plant wedi dychwelyd i'w swyddogaethau rheolaidd yn ofalus yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Yn ystod y chwech i 12 mis nesaf, y cwestiwn allweddol i'r sector gofal plant fydd faint o adferiad fydd yn y galw am ofal plant, a pha mor gyflym fydd yn dychwelyd i normalrwydd llwyr, wrth i gymorth y llywodraeth gael ei ddiddymu'n raddol. Mae'n bwysig cydnabod y gall llawer o ddarparwyr godi ffioedd ac addasu eu model busnes i leihau costau, neu mewn rhai achosion adael y farchnad yn gyfan gwbl i ddelio â'r risgiau tymor byr a chanolig hyn.

Bu cynnydd yn y galw am ofal plant, gan fod rhieni a gofalwyr wedi cael trafferth sicrhau digon o leoedd gofal plant, yn benodol ar gyfer y cyfnodau y tu allan i oriau ysgol i ategu eu swyddi.

Mae arwyddion bod y sector yng Nghymru yn sefydlogi ac yn adfer ar ôl y gwaethaf o'r pandemig. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr asesiad lle dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr nad ydynt yn teimlo y bydd yr effaith yn para am fwy na 12 mis a'r disgwyliad yw y bydd COVID-19 wedi arwain at batrymau galw newydd am ofal plant, sy'n cael eu sbarduno gan y newidiadau ehangach y mae'r pandemig wedi'u gwneud i bob agwedd ar fywyd teuluol.

Mae'r asesiad wedi hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r sefyllfa bresennol o ran cyflenwad a galw'r sector gofal plant ac unrhyw feysydd gwella a amlygwyd sydd wedi ffurfio sail i'r cynllun gweithredu y bydd yr awdurdod yn ei weithredu i wella gofal plant ar draws y sir.



## 1.2 Asesiad digonolrwydd blaenorol Wrecsam (2017-2021)

Yn 2017, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori i ganfod barn rhieni a gofalwyr yn Wrecsam ynghylch gofal plant. Drwy gymysgedd o waith maes a holiaduron strwythuredig, gofynnwyd am farn rhieni a gofalwyr ynghylch argaeledd a hygyrchedd gofal plant.

Rhodddwyd cyhoeddusrwydd i arolwg electronig i holl rieni plant Wrecsam drwy Eich Llais Wrecsam. Anfonwyd holiaduron yr ymgynghoriad hefyd at ysgolion, lleoliadau gofal plant a thrwy bartneriaid EYDCP i'w dosbarthu i rieni. Cynhaliodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam hefyd gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori mewn ardaloedd lle nodwyd nifer isel o ymatebion er mwyn rhoi persbectif mor eang â phosibl. Derbyniwyd cyfanswm o 232 o ymatebion, a oedd yn cynrychioli 345 o blant. O'r 345 o blant hyn, roedd gan 100 ryw fath o nam neu anabledd a nodwyd. Ychwanegwyd at yr arolygon hyn hefyd drwy grwpiau ffocws dan arweiniad Tîm Gofal Plant WFIS.

Ar ben hynny, cafodd yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid ei gwblhau drwy nifer o ffynonellau a oedd yn adrodd ar lefelau'r galw am yr asesiad hwn. Ymgynghorwyd â chyflogwyr drwy gyfrwng digwyddiadau rhwydweithio, yn ogystal â thrwy ymgynghori â fforymau cyflogwyr ar draws y ddwy fenter fach yn ogystal â chyflogwyr mawr o Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam. Cafodd plant yn Wrecsam eu cynnwys drwy gwblhau Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016. Penderfynodd EYDCP fod canfyddiadau'r ymchwil hwn yn gynrychioladol at ddibenion CSA 2017, gan fod y dull a ddefnyddiwyd gan Dîm Datblygu Chwarae Wrecsam yn gadarn ac yn eang wrth iddo gael ei gwblhau. Ymgynghorwyd hefyd â theuluoedd o grwpiau penodol o'r gymuned drwy grwpiau ffocws wedi'u targedu.

Roedd yn ofynnol i holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru lenwi ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar-lein. Cafodd lleoliadau sy'n darparu gofal yn ystod y tymor eu cyfarwyddo i lenwi'r ffurflen yn ystod mis Hydref 2016.

Yr her allweddol wrth gynnal yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn oedd sicrhau cywirdeb y data. Yn anffodus, roedd y gyfradd ymateb i'r holiadur rhieni yn isel iawn gyda'r adborth yn rhoi sylwadau ar hyd a chymhlethdod y fformat. Ar gyfer yr arolwg darparwyr, roedd y data yn yr atodiadau'n anghyflawn gan fod llawer wedi methu ag ateb rhai o'r cwestiynau yn y SASS ac roedd yn amlwg eu bod, mewn rhai achosion, wedi camddehongli cwestiynau ac wedi darparu atebion anghyson. Yn ogystal, y set ddata a ddarparwyd drwy'r broses SASS oedd un o elfennau mwyaf heriol cynhyrchu'r asesiad hwn. Cyflwynwyd y data mewn fformat a oedd yn gofyn am lefelau afresymol o fformatio a thrin er mwyn gallu ei ddadansoddi mewn modd rhesymol. Felly, teimlwyd yn Wrecsam bod yr heriau a ddaeth yn sgil dadansoddi data SASS yn anorchfygol gan arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae'n werth nodi bod y cyfraddau ymateb i'r SASS a'r ymgynghoriad arall a gynhaliwyd yn ystod CSA 2017 yn isel ac felly efallai nad ydynt wedi bod yn gwbl gynrychioladol o ofal plant yn Wrecsam bryd hynny. Dyma ganfyddiadau ac argymhellion allweddol Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017:

- Yn gyffredinol, yn Wrecsam roedd digon o leoedd gofal plant i ateb y galw, gan gynnwys y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg, yn 2017.
- Gallai pob plentyn ag anghenion ychwanegol gael gofal plant priodol yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Roedd y sefydliadau yn defnyddio hunan arfarnu ac adborth yn effeithiol er mwyn deall eu cryfderau a'u gwendidau.

- Ar adeg y CSA blaenorol, roedd gwybodaeth effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gael i bawb am ofal plant yn Wrecsam.
- Roedd sector gofal plant Wrecsam yn sefydlog ac yn darparu gofal plant o ansawdd uchel, gan ateb gofynion yr ardal yn 2017.
- Roedd cymorth cynllunio busnes effeithiol yn cael ei ddarparu i'r sector gofal plant.
- Yr ardaloedd lle'r oedd angen datblygu mwy o ofal plant a mwy o gynaliadwyedd oedd y rhai gyda chyflenwad isel a galw uchel – Brynyffynnon, Coedpoeth, Dwyrain a De Gwersyllt, Maesydre, Pant, a Whitegate.
- Yr ardaloedd lle mae'n annhebygol y byddai'r farchnad yn datblygu lleoedd gofal plant oedd y rhai â chyflenwad isel a galw isel. Y rhain oedd Cefn, Dyffryn Ceiriog, Gwenfro, Little Acton, Llai, Penycae, Queensway, a Wynnstay.
- Yr ardaloedd lle'r oedd y farchnad yn fwyaf tebygol o fod yn weithredol a grymoedd y farchnad yn bodloni'r cyflenwad heb fawr ddim ymyrraeth bellach oedd y rhai â chyflenwad uchel a galw canolig neu uchel – Bronington, Dwyrain a Gorllewin Gresfordd, a Llangollen Wledig.
- Roedd ardaloedd â chyflenwad uchel a galw isel yn debygol o gael digon o ofal plant. Roedd yn bosibl bod gorgyflenwad yn rhai o'r ardaloedd hynny (Acton, Bryn Cefn, Grosvenor, Owrtyn, a'r Orsedd).
- Tynnodd y CSA blaenorol sylw at y ffaith bod angen datblygiadau sylweddol er mwyn gwella lefelau gofal plant yn wardiau Cartrefle, Queensway, Smithfield, Whitegate a Wynnstay a chodi'r lefelau i fyny i gyfartaledd Wrecsam. Fodd bynnag, oherwydd y cyfraddau diweithdra uchel yn y wardiau hyn, ni fyddai datblygiadau gofal plant pellach yn yr ardaloedd hyn wedi bod yn gynaliadwy.
- Mewn ardaloedd fel Grosvenor, Owrtyn, a'r Orsedd, lle ceir cyflenwad uchel o ofal plant ond lefel isel o alw, roedd potensial i ddatblygu ymhellach, gan y gallai hyn fod wedi golygu bod rhieni o'r tu allan i'r ardaloedd hyn yn cael gofal plant yn y wardiau hyn.
- Efallai fod bylchau yn y math o ofal plant wedi bod yn effeithio ar lai o deuluoedd na fforddiadwyedd a bylchau mewn amser; y prif fater oedd dewis gofal plant yn hytrach na'r angen am fwy o leoedd.
- Nid oedd ansawdd y ddarpariaeth ychwaith yn fwelch mawr yn Wrecsam, gyda nifer sylweddol o rieni'n fodlon ar y cyfan ag ansawdd y ddarpariaeth adeg y CSA diwethaf.

### **1.3 Y farchnad gofal plant o'i chymharu â'r asesiad digonolrwydd diwethaf**

Ers yr asesiad digonolrwydd diwethaf, mae Wrecsam wedi adrodd bod y darparwyr cofrestredig canlynol yn darparu gwasanaethau yn y sector gofal plant: (Arolygiaeth Gofal Cymru, Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth 2021).

- Lleoliadau Gofal Dydd Llawn: 66
- Gwarchodwyr Plant: 46
- Darpariaeth y tu allan i'r ysgol: 22
- Gofal Dydd Sesiynol: 28
- Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored: 2

- Crèche: 0
- Nanis: 0

Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 164 o ddarparwyr cofrestredig. Adroddir hefyd bod 22 o ddarparwyr heb eu cofrestru y tu allan i'r ysgol ac un darparwr anghofrestredig sy'n cynnig sesiynau ad hoc. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 186 o ddarparwyr cofrestredig a heb eu cofrestru.

Yn ôl CSA diwethaf Wrecsam, ym mis Ionawr 2017 cofnodwyd 318 o leoliadau gofal plant gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, a oedd yn cynnwys darpariaeth gofrestrdig ac anghofrestredig. Mae hyn yn dangos bod gostyngiad wedi bod yn nifer y gosodiadau.

- Lleoliadau Gofal Dydd Llawn: 28
- Gwarchodwyr Plant: 66
- Darpariaeth y tu allan i'r ysgol: 109
- Gofal Dydd Sesiynol: 80
- Darpariaeth gwyliau: 35
- Crèche: 0
- Nanis: 0

Dengys y ffigurau uchod fod nifer y darparwyr gofal dydd llawn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2017 o 38, tra bod nifer y gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal dydd sesiynol a'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol wedi gostwng 20, 52 a 65 yn y drefn honno.

Dylid nodi bod rhai o ddarpariaethau y tu allan i ysgol cyn y pandemig a gynhwyswyd uchod yn glybiau brechwast heb eu cofrestru, sydd wedyn wedi cau oherwydd newid yn y trefniadau cyllido. Yn ogystal, mae nifer o leoliadau y tu allan i'r ysgol bellach wedi cofrestru fel lleoliadau gofal dydd llawn. Ar ben hynny, mae lleoliadau eraill wedi uno, lle mae dau neu dri rhif cofrestru ar wahân wedi dod yn un cofrestriad.

Y darlun cyffredinol, fodd bynnag, yw bod 4891 o leoedd gofal plant cofrestredig mewn lleoliadau gofal sesiynol, gofal dydd llawn, gwarchodwyr plant a gofal plant yn ystod gwyliau ar gael yn Wrecsam yn 2017, ac yn 2022 mae 4040 erbyn hyn, sy'n cynrychioli gostyngiad bach.

### **Gofal Plant a Ariennir yng Nghymru**

Yng Nghymru, mae amrywiaeth o hawliau wedi'u hariannu ar gael i gefnogi rhieni/gofalwyr gyda chost gofal plant. Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r gwahanol fathau o hawliau a ariennir sydd ar gael ledled Cymru.

#### **Y Cyfnod Sylfaen (h.y. Hawl Gynnar/Meithrinfa Ysgol)**

*Hyd at 12.5 awr yr wythnos i blant 3–4 oed*

Mae gan bob plentyn 3-4 oed hawl i gael hyd at bum tymor addysg Blynyddoedd Cynnar rhan-amser cyn dechrau addysg orfodol. Cynigir hyn mewn cymysgedd o leoliadau a ariennir, gan gynnwys grwpiau chwarae, Cylch Meithrin, ysgolion a meithrinfeydd dydd.

#### **Cynnig Gofal Plant Cymru**

### *Hyd at 20 awr ychwanegol yr wythnos i blant 3–4 oed*

Mae rhai plant yn gymwys i dderbyn hyd at 20 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu o ddechrau'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd.

#### **Dechrau'n Deg**

Ar hyn o bryd, mae rhai pobl ifanc 2 oed yng Nghymru yn gallu cael 12.5 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu fel rhan o'r cynllun Dechrau'n Deg. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o safon sy'n cael ei gynnig i rieni/gofalwyr pob plentyn cymwys am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn. Rhaid i blant cymwys breswyllo mewn ardal Dechrau'n Deg i dderbyn y cyllid hwn; codau post sy'n pennu hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd Dechrau'n Deg yn cael ei ehangu fesul cam er mwyn cynnwys pob plentyn 2 oed ledled Cymru yn y pen draw. Bydd Cam 1 yn cynyddu ardaloedd targed Dechrau'n Deg i gyrraedd hyd at 2,500 o blant rhwng 0 a 4 oed ledled Cymru o fis Medi 2022 ymlaen.

#### **Elfen Gofal Plant y Credyd Cynhwysol**

Efallai y bydd rhieni/gofalwyr yn gallu hawlio hyd at 85% o gostau gofal plant yn ôl os ydynt yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol. Fel arfer, bydd angen i ymgeiswyr fod naill ai'n gweithio neu'n cael cynnig swydd.

#### **Gofal Plant Di-dreth**

Pan fydd rhieni/gofalwyr yn cofrestru ar gyfer cyfrif gofal plant di-dreth, am bob £8 y maent yn ei dalu i mewn, bydd y llywodraeth yn talu £2 i dalu i'r darparwr gofal plant. Gall rhieni/gofalwyr dderbyn hyd at £500 bob tri mis (hyd at £2,000 y flwyddyn) ar gyfer pob plentyn i'w helpu gyda chostau gofal plant.

#### **Cymorth i Fyfyrrwyr**

Os yw rhiant/gofalwr yn mynychu cwrs llawn neu ran-amser ac yn derbyn cyllid myfyrrwyr israddedig a bod ganddo o leiaf un plentyn dan 15 oed sy'n ddibynnol yn ariannol (neu dan 17 oed os oes ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol), efallai y bydd ganddynt hawl i gael y grant gofal plant a'r Lwfans Dysgu i Rien i drwy Gyllid Myfyrrwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu'r Cynnig Gofal Plant i gynnwys pob rhiant mewn addysg bellach ac uwch o fis Medi 2022 ymlaen ar gyfer y rheini sy'n mynychu cwrs sy'n para mwy na 10 wythnos. Ar ôl rhoi hyn ar waith yn llawn, mae cynlluniau i gynnwys carfannau ychwanegol o ddysgwyr dros amser, fel y rheini sy'n dilyn cyrsiau dysgu oedolion, dysgu yn y gwaith, dysgu yn y gymuned a hefyd y rheini sy'n ymgymryd â mwy o ddysgu tymor byr, gan gynnwys cyrsiau ESOL.


## 2. Methodoleg

Cynhaliwyd y gwaith maes a'r gwaith ymchwil a oedd yn sail i Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 2022 rhwng mis Hydref 2021 a mis Mai 2022. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar ofal plant yn Wrecsam o wanwyn 2022 ymlaen.

Er mwyn gallu dadansoddi'n ystyrlon o dan lefel Wrecsam, mae ymchwil yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi'i alinio â'r 47 ward a'r 3 ardal gymunedol leol sy'n ffurfio'r fwrdeistref sirol (Canol Wrecsam, gogledd Wrecsam a de Wrecsam).

Mae'n werth nodi bod y [trefniadau etholiadol](#) ar gyfer Wrecsam wedi newid ym mis Mai 2022, a bod nifer y wardiau wedi cynyddu i 49.

### Map Wardiau ac Ardaloedd Cymunedol Wrecsam



Wrecsam,  
Ardaloedd asesu lles, 2016

#### Canol

1. Acton
2. Parc Borras
3. Brynyffynnon
4. Cartrefle

5. Erddig
6. Garden Village
7. Grosvenor
8. Hermitage
9. Little Acton
10. Maesydre
11. Offa
12. Queensway
13. Rhosnesni
14. Smithfield
15. Stansty
16. Whitegate
17. Wynnstay

#### **Gogledd**

18. Brymbo
19. Bryn Cefn
20. Coedpoeth
21. Dwyrain a Gorllewin Gresffordd
22. Gwenfro
23. Dwyrain a De Gwersyllt
24. Gogledd Gwersyllt
25. Gorllewin Gwersyllt
26. Llai
27. Marford a Hoseley
28. Minera
29. Brychdyn Newydd
30. Rossett

#### **De**

31. Bronington
32. Cefn
33. Dyffryn Ceiriog

34. Gogledd y Waun
35. De'r Waun
36. Esclusham
37. Holt
38. Johnstown
39. Llangollen Wledig
40. Marchwiel
41. Owrtyn
42. Pant
43. Penycae
44. De Penycae a Rhiwabon
45. Plas Madog
46. Ponciau
47. Rhiwabon

Cynhaliwyd sawl math o ymchwil a dadansoddiad drwy gydol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, a restrir isod.

## **2.1 Nodi materion demograffig ac economaidd-gymdeithasol allweddol**

Cynhaliwyd ymchwil desg strwythuredig er mwyn nodi ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol allweddol a fydd yn cael dylanwad amlwg ar ddigonolrwydd ac addasrwydd darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar a hawliau wedi'u hariannu yn Wrecsam ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Roedd yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar:

- Amcangyfrif o nifer y plant rhwng 0 a 14 oed sy'n byw yn Wrecsam.
- Nifer y plant y rhagwelir y byddant yn byw yn Wrecsam erbyn 2026 a chyfraddau geni lleol.
- Tueddiadau mewn lifau ac all-lifau mudo mewnol a mudo rhyngwladol.
- Nifer y swyddi a diweithdra ar draws holl wardiau Wrecsam.
- Nifer y plant yn Wrecsam sy'n byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ac aelwydydd incwm isel.
- Cyfansoddiad teuluol cyfredol a rhagamcanol ar draws y sir.
- Incwm cyfartalog cartrefi yn ôl ward ac Ardal Cynnyrch Ehangach Ganol.
- Ethnigrwydd plant dros bump oed.
- Nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Data Iaith Gymraeg a darpariaeth lleoliadau gofal plant sy'n siarad Cymraeg.

Lle bo modd, cafodd yr holl ddata ei ddadansoddi yn ôl ward neu Ardal Cynnyrch Ehangach Ganol er mwyn gallu canfod y cyflenwad a'r galw ar lefel leol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i gynnal ymchwil, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Cymru, yr Adran Addysg, yr Adran Gwaith a Phensiynau.

## 2.2 Adroddiadau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

Dadansoddodd Grŵp Cynghori Premier y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) a data arolwg rhieni a ddarparwyd gan Wrecsam i ganfod tueddiadau ac ymgorffori data yn ein dadansoddiad ehangach a'n cynllun gweithredu. Cyn cyflwyno'r SASS i ddarparwyr gofal plant, aeth pob awdurdod lleol, Childcare Wales Learning and Working Mutually (CWLWM) a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ati i gydweithio â chydweithwyr yn Arolygiaeth Gofal Cymru i gydgyhyrchu arolwg mwy gwybodys nag a oedd ar gael o'r blaen. Er y nodir bod gwelliannau posibl o hyd y gellid eu gwneud i wella ansawdd y data a geir, croesawyd y cyfle i gydgyhyrchu'r arolwg a phrofwyd ei fod yn fuddiol iawn gan fod y data a gafwyd o'r SASS o ansawdd uwch na'r blynyddoedd blaenorol.

Cynhaliodd Grŵp Cynghori Premier ddadansoddiad manwl o'r data cyflenwi byw a ddelir gan Wrecsam i bennu'r union ffigurau ar gyfer argaeledd llefydd gofal plant yn yr ardal. Ar ben hynny, drwy gyfuno data o leoliadau gofal plant a'n hymchwil demograffeg, nodwyd manau cyfyng posibl yn y system, o ran wardiau/ardaloedd cymunedol sydd â chyflenwad/galw cyfyngedig ac ardaloedd sydd â lefelau arbennig o uchel o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Roedd hi'n amlwg, er gwaethaf y canllawiau i ddarparwyr gofal plant ar gwblhau'r SASS sy'n cael ei gynnwys yn y porth ar-lein, bod yr ymatebion yn dangos bod rhai cwestiynau'n dal i fod yn agored i'w dehongli ac oherwydd natur hunan-adrodd yr arolwg, efallai na fydd rhywfaint o'r data'n gwbl gywir. Cynhaliwyd y SASS hefyd ym mis Gorffennaf 2021, cyn i'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ddod i rym.

## 2.3 Data darparwyr ychwanegol

Fel ffynhonnell o ddata, mae'r SASS yn llawer gwell nag a fu yn y blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd yn dal yn anghyson, felly ni ellir ei ddefnyddio fel yr unig ffynhonnell data a rhaid ystyried ffynonellau data eraill er mwyn eu croesgyfeirio. Dyma ffynonellau eraill a nodwyd:

- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam – Dewis.
- Cronfa Ddata'r Tîm Gofal Plant.

Cafwyd yr ail ffynhonnell o ddata am y ddarpariaeth bresennol drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam (WFIS) a Dewis. Mae WFIS yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer darparwyr gofal plant Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Fodd bynnag, gan fod ymgysylltu â WFIS yn wirfoddol, nid oes rheidrwydd ar y darparwyr gofal plant i ddiweddarau eu cofnodion gyda WFIS nac ar Dewis. Felly, efallai nad yw'r cofnodion a ddelir yn 100% cywir.

Daw'r trydydd ffynhonnell o ddata gan Dîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r Tîm Gofal Plant yn cynnal cronfa ddata o ddarpariaeth gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r data hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda gwybodaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru, cyswllt uniongyrchol â darparwyr, data WFIS a gwybodaeth gan bartneriaid CWLWM a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Tîm Gofal Plant yn cynnal archwiliadau llinell sylfaen blynyddol gyda'r holl ddarparwyr i ganfod data perthnasol a llunio opsiynau ar gyfer cymorth effeithiol i'r sector. Fodd bynnag, gan nad yw rhyngweithio â'r Tîm Gofal Plant yn orfodol, gall hyn effeithio ar gywirdeb y data a gedwir. Hefyd oherwydd COVID-19, mae cyswllt â rhai darparwyr wedi bod yn gyfyngedig oherwydd anawsterau cyfathrebu e.e. efallai fod y lleoliad wedi cael ei gau neu efallai na fydd ymweliadau uniongyrchol â'r lleoliad wedi digwydd oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith.



Rhodddwyd cyfle hefyd i ddarparwyr gofal plant roi sylwadau ar eu barn am ofal plant drwy holiadur a ddsbarthwyd drwy dudalennau Gov Delivery a Facebook y Timau Gofal Plant.

## **2.4 Arolwg Rhieni Llywodraeth Cymru**

Roedd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn hefyd yn ystyried y galw am ofal plant drwy ddadansoddi anghenion rhieni/gofalwyr, a nodwyd drwy arolwg a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru fel Arolwg Clyfar ar lefel awdurdodau lleol. Cafodd yr arolwg ei hysbysebu'n eang drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru, blog a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Wrecsam, drwy ysgolion, busnesau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr Heddlu a thrwy sianeli cyfryngau ar-lein lleol hefyd. Dadansoddwyd yr ymatebion, gan fanylu ar dueddiadau o ran hygyrchedd, fforddiadwyedd a hyblygrwydd gofal plant i rieni ar draws y sir.

## **2.5 Arolwg ar-lein gyda Disgyblion**

Fe wnaeth Wrecsam hefyd greu arolwg ar-lein sy'n addas i blant drwy Your Voice ar gyfer plant ac roedd ar gael i'w gwblhau rhwng 22 Hydref a 15 Tachwedd. Cafodd hyn ei hyrwyddo drwy lwyfannau cyfryngau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam a thrwy amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau eraill. Roedd aelodau'r Tîm Gofal Plant hefyd yn mynychu lleoliadau gofal plant i gynnal arolygon gyda phlant yn uniongyrchol yn y lleoliad. Roedd yr arolwg yn gofyn i blant a phobl ifanc am eu barn am y lleoliad gofal plant roedden nhw'n ei fynychu, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynediad, argaeledd ac a oedd yr opsiynau roedden nhw'n eu ffafrio ar gael. Arolygwyd cyfanswm o 37 o blant gan roi cipolwg ar y math o leoliad yr oeddent yn ei fynychu, y rhesymau pam yr oedd angen gofal plant arnynt, yn ogystal â'r gweithgareddau a oedd ar gael yn eu lleoliadau yr oeddent yn ystyried eu bod yn ffafriol.

## **2.6 Arolwg ar-lein gyda Rhanddeiliaid a Chyflogwyr**

Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ymdrech i ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys pobl sydd â buddiant mewn gofal plant a'u cynrychiolwyr, cyflogwyr lleol a phobl sy'n eu cynrychioli a sefydliadau cyflogwyr ac awdurdodau lleol cyfagos, i gasglu eu barn am yr economi leol, rhwystrau i ofal plant a allai effeithio ar y gweithlu a thueddiadau a ddaeth i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf. Gwnaed ymdrech hefyd i ymgynghori ag ystod o gyflogwyr ar draws gwahanol ddiwydiannau i ddarparu'r sampl mwyaf cynrychioladol posibl o fewn yr amserlen. Cynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyflogwyr drwy arolwg ar-lein a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion, ni chafwyd ymateb gan unrhyw gyflogwr a dim ond un ymateb gan randdeiliaid a gafwyd.

## **2.7 Dadansoddiad o'r Bylchau ac Argymhellion**

Ar ôl cwblhau'r cam ymgynghori, cynhyrchwyd crynodeb o'n canfyddiadau ynghylch digonolrwydd lleoedd ar draws yr awdurdod lleol. Defnyddiwyd technegau amrywiol i gael adroddiad cywir ar y bylchau presennol yn y gofal plant sydd ar gael ledled yr awdurdod drwy fapio'r cyflenwad i'r galw. Ar ôl hynny, bu i ni ddadansoddi ystod ac amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael yn y sir yn ôl grwpiau oedran penodol/priodol.

Ar sail y dadansoddiad hwn, mae rhagor o argymhellion strategol wedi cael eu darparu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i fynd i'r afael â bylchau yn y cyflenwad neu'r galw ac i fynd i'r afael ag

effaith COVID-19. Bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Thîm Gofal Plant Wrecsam, y bydd yr awdurdod yn gallu ei roi ar waith ar unwaith. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o argymhellion sy'n nodi camau gweithredu realistig, cyraeddadwy sy'n seiliedig ar werth am arian y gall yr awdurdod lleol, ar y cyd â phartneriaid gofal plant, eu rhoi ar waith.

### 3. Nodi'r Prif Faterion Demograffig ac Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno dadansoddiad, o wanwyn 2022 ymlaen, sy'n canolbwyntio ar sut gallai ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol effeithio ar y galw sydd ar ddod ac yn lleol am leoedd gofal plant.

Mae'r setiau data a'r metrigau perthnasol wedi'u halinio â Wrecsam, gan gynnwys:

- Poblogaethau 0 – 4 oed presennol ac amcanestyniadau/rhagolygon.
- Cyfraddau genedigaethau ar draws yr awdurdod lleol ers 2017 er mwyn helpu i lywio'r dyraniad gofal plant sydd ar y gweill.
- Nifer y teuluoedd sy'n gweithio (sy'n gymwys i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant 30 awr) ac incwm cyfartalog aelwydydd.
- Nifer y plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel.
- Nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Gwybodaeth am dai sydd ar y gweill.

Amcan y dadansoddiad canlynol yw ystyried i ba raddau y gallai fod angen i gynllunwyr gofal plant yn Wrecsam barhau i flaenoriaethu eu galluoedd i helpu i sefydlu neu ysgogi rhagor o leoedd gofal plant mewn ardaloedd daearyddol penodol ac wedi'u targedu. Edrychwyd ar amrywiaeth o ffactorau, fel tueddiadau mudo, nifer y plant sy'n byw yn Wrecsam yn ôl grŵp oedran a nifer y plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae prif ganfyddiadau'r adran hon wedi'u crynhoi isod:

Tueddiadau poblogaeth yn gostwng:

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhagweld y bydd nifer y plant rhwng 0 a 4 oed yn gostwng 496 yn raddol ar draws Wrecsam o 7,624 i 7,128 rhwng 2020 a 2026.
- Mae cyfraddau genedigaethau yn Wrecsam wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall o 2017-2020, o 274. Ar ben hynny, rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Wrecsam yn gostwng 1,751 rhwng 2018-2027. Mae hyn yn awgrymu bod y galw am ofal plant yn debygol o ostwng hefyd.
- Gwelwyd cynnydd cyffredinol hefyd yn nifer y bobl sydd wedi ymfudo o Wrecsam yn fewnol ac yn rhyngwladol. Mae'r mewnlifiad o bobl sy'n dod i Wrecsam yn rhyngwladol yn debygol o gael ei leihau ymhellach oherwydd effeithiau Brexit a deddfau llymach sy'n ymwneud â mewnfudo yn y DU. Fodd bynnag, gellid lliniaru hyn drwy'r ffaith mai Tref Noddfa yw Wrecsam sy'n golygu bod rhwydwaith o fudiadau, grwpiau cymunedol, grwpiau ffydd ac unigolion dan arweiniad Trefnu Cymunedol Cymru, yn gweithio i wneud y gymuned yn groesawgar ac yn ddiogel i fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Gan edrych ar ddata ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig, cofnododd Cymru 4,201 yn llai o blant 0–4 oed rhwng 2019 a 2020, gyda gostyngiad o 165,542 i 161,341. Ar draws y wlad, mae'r un data ar gyfer y Deyrnas Unedig yn dangos gostyngiad o 74,933 o bobl ifanc 0–4 oed rhwng 2019 a 2020. Byddai hyn wedyn yn cefnogi tystiolaeth sy'n awgrymu y bydd gostyngiad graddol yn y galw am leoedd gofal plant dros y flwyddyn nesaf.

- Mae'n bosibl y bydd ehangu'r Cynllun Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant i fyfyrwyr mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn lliniaru yn erbyn y gostyngiad a ragwelir yn y galw gan y bydd mwy o rieni'n gymwys i fanteisio ar leoedd gofal plant a ariennir ar gyfer eu plant.

**Nifer y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Canfuwyd bod gan Wrecsam 3003 neu 15.4% o ddisgyblion â rhyw fath o Anghenion Dysgu Ychwanegol, roedd hyn yn uwch nag yn siroedd cyfagos Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Phowys. Roedd canran y disgyblion gyda phob math o Anghenion Dysgu Ychwanegol yn uwch yn Wrecsam na'r Cyfartaledd Cenedlaethol.

**Data o amcanestyniadau tai:** Er bod data poblogaeth yn awgrymu gostyngiad yn y galw yn gyffredinol, mae data amcanestyniadau tai yn awgrymu bod y galw am ofal plant yn debygol o gynyddu yn yr ardaloedd canlynol: Rhosddu, Acrefair/Cefn Mawr, Brymbo, Llai, a Rhiwabon.

### 3.1 Poblogaeth ragamcanedig ar gyfer Sir Wrecsam

Fel y dangosir yn Tabl A (Atodiad 2), rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth Wrecsam yn gostwng 1,751 ar draws yr awdurdod lleol rhwng 2018 a 2027.

### 3.2 Y boblogaeth bresennol a'r boblogaeth a ragwelir o blant a phobl ifanc sy'n byw yn Wrecsam

Poblogaeth bresennol

Tabl 2 – Cyfanswm Poblogaeth Plant 0-4 oed yn Wrecsam (ONS 2022)

Ardal gymunedol	0 oed	1 oed	2 oed	3 oed	4 oed
Canol	409	474	467	489	491
Gogledd	447	474	524	487	521
De	485	540	530	511	556
<b>Cyfanswm</b>	<b>1282</b>	<b>1429</b>	<b>1521</b>	<b>1468</b>	<b>1549</b>

- Uchod, mae Tabl 2 yn dangos mai plant 4 oed oedd y grŵp mwyaf yn yr ystod oedran 0–4 oed yn Wrecsam gyda 1,549 o blant, wedi'i ddilyn gan 1,521 o blant 2 oed a 1,468 o blant 3 oed.
- Byddai hyn yn awgrymu, ar gyfer plant 4 ac iau, bod y galw presennol am ofal plant yn Wrecsam ar ei uchaf ymysg plant 4 oed, wedi'i ddilyn gan blant 2 oed ac yna gan blant 3 blwydd oed.
- Mae'r niferoedd preswyl isaf yn fras ar gyfer plant ar draws yr awdurdod lleol yng Nghanol Wrecsam gyda 2,330 o blant. Mae hyn yn cael ei ddilyn yn agos gan Gogledd Wrecsam gyda 2,453.
- Dengys y data o Dabl B (Atodiad 2) mai De Wrecsam sydd â'r nifer fwyaf o blant sy'n byw yn yr ardal gyda chyfanswm o 2,662 o blant.
- Fodd bynnag, mae gwahaniaeth mawr ar lefel wardiau rhwng nifer y plant rhwng 0 a 4 oed ym mhob ardal gymunedol.
- Yng Ngogledd Wrecsam, mae gan Ddwyrain a Gorllewin Gresffordd boblogaeth o ddim ond 10 o blant 3 oed a chyfanswm o 66 o blant 0-4 oed. I'r gwrthwyneb, mae gan Dde a Dwyrain Gwersyllt boblogaeth o 303 o blant rhwng 0 a 4 oed.
- Yng Nghanol Wrecsam, mae gan Garden Village boblogaeth o 63 o blant rhwng 0 a 4 oed, a dim ond 10 o blant o dan flwydd oed sydd ym Mharc Borrás. Mae 262 o blant rhwng 0 a 4 oed yn Queensway.
- Mae llai o wahaniaeth yn Ne Wrecsam ar lefel ward ar draws pob grŵp oedran, ond dim ond 9 ac 11 o blant dan flwydd oed sydd gan Fronington a Dyffryn Ceiriog yn y drefn honno.

- Mae hyn yn awgrymu y bydd y galw am leoedd gofal plant yn amrywio fesul ward (gweler Tabl 2 am ddadansoddiad llawn o'r boblogaeth yn ôl ward ar gyfer plant 0–4 oed).

### **Rhagolwg o'r boblogaeth**

- Fel y dangosir yn Nhabl C (Atodiad 2), mae'r data diweddaraf am y boblogaeth ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bydd nifer y plant yn y grŵp oedran hwn yn gostwng ar draws Wrecsam o 2020-2026 i 496 o 7,624 i 7,128.
- Rhagwelir y bydd y grŵp oedran 12-18 oed yn gweld y cynnydd mwyaf mewn niferoedd rhwng 2020 a 2026, ac mae disgwyl gweld y gostyngiad mwyaf yn y niferoedd yn y grŵp oedran 8-11.
- Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd cyfanswm nifer y plant y rhagwelir y byddant yn byw yn Wrecsam yn gostwng 758 rhwng 2020 a 2026. Mae hyn yn awgrymu y bydd y galw am ofal plant yn lleihau erbyn 2026.
- Cofnododd Cymru 4,201 yn llai o blant 0–4 oed rhwng 2019 a 2020, o 165,542 i 161,341. Ar draws y wlad, mae'r un data ar gyfer y Deyrnas Unedig yn dangos gostyngiad o 74,933 o bobl ifanc 0–4 oed rhwng 2019 a 2020. Byddai'r data hwn felly'n awgrymu bod y cynnydd a ragwelir yn nifer y plant 0–4 oed yn Wrecsam yn annodweddiadol ledled Cymru neu yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

### **3.3 Cyfraddau geni yn Wrecsam**

Mae Tabl D (Atodiad 2) yn dangos nifer y genedigaethau byw a gofnodwyd yn Wrecsam rhwng 2017 a 2020. Mae'r data cyfatebol yn dangos bod cyfradd genedigaethau byw yn gostwng yn Wrecsam ac mae wedi gostwng yn raddol yn olynol rhwng 2017 a 2020.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae nifer y genedigaethau yn y flwyddyn hyd at ganol 2020 ar draws y DU wedi gostwng i'w lefel isaf ers 2003, sy'n awgrymu nad Wrecsam yn unig sydd wedi gweld gostyngiad yn ei chyfradd genedigaethau byw. Mae gostyngiadau mewn cyfraddau ffrwythlondeb ledled y DU wedi cael eu nodi fel rheswm dros y digwyddiad hwn ar lefel genedlaethol, ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn datgan na ellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y genedigaethau i COVID-19.

Y rheswm am hyn yw bod yr holl enedigaethau a gofnodwyd hyd at ganol y 2020au wedi dod o feichiogi a ddigwyddodd cyn i COVID-19 daro yn sylweddol ym mis Mawrth 2020. Gallai'r ffigurau hyn felly awgrymu y bydd cyfradd genedigaethau byw yn parhau i ostwng yn Wrecsam yn y tymor byr i ganolig, a allai leihau'r galw am ofal plant ymhellach yn yr awdurdod lleol, yn enwedig gan fod gostyngiadau mewn cyfraddau ffrwythlondeb wedi digwydd ar draws y DU yn y blynyddoedd diwethaf.

### **3.4 Mudo**

Mae Tabl E (Atodiad 2) yn dangos patrwm cyfnewidiol o ran mudo rhyngwladol, er enghraifft roedd y gyfradd mewnlif wedi cynyddu o 538 i 624 rhwng 2014 a 2016 cyn gostwng yn ôl i lefel debyg o 528 o bobl yn 2016-2017. Roedd hyn wedyn wedi codi eto'n raddol i 676 yn 2018-2019 cyn gostwng i 552 yn 2019-2020. Yn yr un modd, mae all-lif mudo rhyngwladol wedi amrywio'n gyffredinol yn ystod y cyfnod hwn o 556 yn 2013-2014, gan godi i frig o 742 yn 2014-2015, cyn disgyn islaw lefel 2013-2014 yn 2015-2016. Unwaith eto, gwelodd 2016-2017 gynnydd cyflym i 712 cyn gostwng yn raddol eto i 433 yn 2019-

2020 dros 4 blynedd. At ei gilydd, bu cwmp net o 52 o bobl o 2013-2020. Fodd bynnag, yn unol â phatrymau mewnlif ac all-lif cyfnewidiol, mae hyn wedi amrywio o un flwyddyn i'r llall, gan fod 2014-2015 wedi gweld -196 o drosiant mudo net, tra bod 2015-2016 wedi gweld athreuliad mudo net o 182.

Ar gyfer mudo mewnol, gwelwyd gostyngiad yn y lefel mewnlif rhwng 2013 a 2016, o 4,034 i 3,864. Roedd y ffigur wedyn yn aros ar tua 4,100 rhwng 2016 a 2019 cyn gostwng i 3,631 yn 2019-2020. Mae'r patrwm all-lif ar gyfer mudo mewnol yn Wrecsam wedi codi'n raddol o 4,148 yn 2013 i 4,312 yn 2017, cyn disgyn eto i 4,189 yn 2017-2018. Yna cododd y ffigur hwn i 4,507 yn 2018-2019 cyn gostwng yn sylweddol i 3,631 yn 2019-2020. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad net negyddol mewn ymfudo bob blwyddyn o 2013-2020. At ei gilydd, bu cwmp net o -1,802 o bobl o 2013-2020. Efallai fod hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd at egluro cyfraddau poblogaeth sy'n gostwng yn Wrecsam.

Gall effeithiau COVID-19 a Brexit arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n dod i Gymru ac o bosibl arwain at fwy o bobl yn gadael yn hytrach na dod i mewn, gan arwain at allfudo net negyddol. Mae'r rhesymau posibl dros hyn yn niferus. Yn gyntaf, mae [Arsyllfa Mudo Rhydychen](#) yn dadlau, gan fod System Mewnfudo Seiliedig ar Bwyntiau newydd y DU yn gosod mwy o gyfyngiadau ar nifer y gweithwyr UE â llai o sgiliau sy'n cael dod i'r DU, y bydd hyn yn debygol o gyfrannu at ostyngiad mewn mudo a allai effeithio ar awdurdodau lleol fel Wrecsam.

### A yw COVID-19 wedi effeithio ar hyfforddiant?



■ Llai o hyfforddiant ■ Mwy o hyfforddiant ■ Dim newid

### A yw COVID-19 wedi effeithio ar hyfforddiant?

Llai o hyfforddiant	Mwy o hyfforddiant	Dim newid
44.2%	8.8%	46.9%

Roedd 16.9% o'r darparwyr hyn yn teimlo nad oedd digon o fynediad at TG, ac roedd 16.9% yn teimlo bod hyn oherwydd diffyg cyllid. Dywedodd y rhan fwyaf (61.5%) fod hyn oherwydd nad oedd cymwysterau'n gallu cael eu cynnal a dywedodd 23% mai diffyg staff llanw oedd rheswm dros lai o hyfforddiant.

Dywedodd 97.3% o ddarparwyr fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol drwy gydol y pandemig. O'r rheini nad oedd ganddynt, dim ond un a ddywedodd nad oedd ganddynt fynediad at ddigon o gyfarpar diogelu personol o haf 2021 ymlaen.

#### 4.12 Datblygu a hyfforddi'r gweithlu

Lefelau cymwysterau, fesul math o ofal plant:

Tabl 19 – Lefelau cymwysterau Gwarchodwyr Plant

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 2

Teitl y Swydd	Nifer
Ymarferwyr Gofal Plant	4
Ymarferwyr Chwarae	2

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 3

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
Ymarferwyr Gofal Plant	12
Ymarferwyr Chwarae	5

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 5

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
Ymarferwyr Gofal Plant	4
Ymarferwyr Chwarae	0

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Heb Nodi

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
---------------	------------------

<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	2
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	1

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Dim

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	3
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	4

Tabl 20 - Lefelau cymwysterau Gofal Dydd Llawn

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 2

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	84
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	52

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 3

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	262
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	86

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 5

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	65
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	7

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Heb Nodi

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	60
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	21

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Dim

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
Ymarferwyr Gofal Plant	68
Ymarferwyr Chwarae	57

Tabl 21 - Lefelau cymwysterau Gofal Dydd Sesiynol

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 2

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
Ymarferwyr Gofal Plant	7
Ymarferwyr Chwarae	3

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 3

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
Ymarferwyr Gofal Plant	26
Ymarferwyr Chwarae	9

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 5

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
Ymarferwyr Gofal Plant	26
Ymarferwyr Chwarae	0

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Heb Nodi

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
Ymarferwyr Gofal Plant	16
Ymarferwyr Chwarae	1

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Dim

Teitl y Swydd	Newid o ran rhif
---------------	------------------

<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	4
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	4

Tabl 22 – Mathau o gymwysterau Gofal y tu allan I'r Ysgol

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 2

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	11
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	10

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 3

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	29
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	21

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Lefel 5

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	5
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	3

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Heb Nodi

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	21
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	13

Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol – Cyngor Gofal Cymru Dim

<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Newid o ran rhif</b>
<b>Ymarferwyr Gofal Plant</b>	19
<b>Ymarferwyr Chwarae</b>	24

#### 4.13 Ansawdd y Ddarpariaeth

Dengys Tabl 23 gyfanswm o 27 o ddarparwyr gofal plant yn Wrecsam sy'n cael gradd Rhagorol ym mhob Maes Adolygu Ansawdd Gofal.

Tabl 23 – Darparwyr wedi'u graddio'n rhagorol ym mhob un o'r Meysydd Adolygu Ansawdd Gofal

Math o ddaparwr	Newid o ran rhif	Canran
Gofal Dydd Llawn	13	20.0%
Gwarchodwyr Plant	9	25.0%
Gofal Dydd Sesiynol	3	11.5%
Gofal y tu allan I'r Ysgol	1	5.6%
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	1	50.0%
Cyfanswm	27	18.4%

Mae 133 o 147 neu 90.5% o ddarparwyr yn cael sgôr Da neu Wych ym mhob un o'r Meysydd Adolygu Ansawdd Gofal.

Mae 4 darparwr wedi'u graddio'n Ddigonol mewn 2 faes neu fwy, wedi'u lleoli yn Ne Wrecsam a Gogledd Wrecsam.

#### 4.14 Darparwyr Heb eu Cofrestru

Ar hyn o bryd mae 22 o ddarparwyr heb eu cofrestru y tu allan i'r ysgol ac un darparwr anghofrestredig sy'n cynnig sesiynau ad hoc. Mae 12 o'r rhain yn glybiau brecwast/cyn ysgol ac mae 10 yn glybiau ar ôl ysgol. Mae manylion y wardiau lle mae'r lleoliadau hyn yn gweithredu i'w gweld isod:

Tabl 24 – nifer y darparwyr anghofrestredig yn ôl ward

Ardal gymunedol ganolog

Ward	Nifer y Darparwyr Heb eu Cofrestru
Garden Village	1
Grosvenor	1
Rhosnesni	1
Cyfanswm	3

Ardal gymunedol y de

Ward	Nifer y Darparwyr Heb eu Cofrestru
Cefn	6

<b>Holt</b>	1
<b>Johnstown</b>	3
<b>Marchwiel</b>	3
<b>Cyfanswm</b>	13

Ardal gymunedol y gogledd

<b>Ward</b>	<b>Nifer y Darparwyr Heb eu Cofrestru</b>
<b>Brymbo</b>	2
<b>Coedpoeth</b>	2
<b>Dwyrain a De Gwersyllt</b>	1
<b>Minera</b>	2
<b>Cyfanswm</b>	7

Fel y gwelir o'r tabl, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr anghofrestredig yn gweithredu yn Ne Wrecsam gyda chyfanswm o 13. Cefn yw'r ward sydd nifer fwyaf o ddarparwyr heb eu cofrestru gyda 6. Mae hyn yn dangos bod lleoliadau gofal plant ychwanegol yn yr ardaloedd hyn i helpu gyda'r galw am ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol. Dim ond 3 darparwr heb eu cofrestru sydd ar waith yn Garden Village, Grosvenor a Rhosnesni yng Nghanol Wrecsam.

#### **4.15 Prif ganfyddiadau gan ddarparwyr**

- Roedd gan rai wardiau restrau aros ar gyfer rhai rhannau o'u gwasanaeth, ac roeddent hefyd yn nodi swyddi gwag ar gyfer yr un rhan o'r gwasanaeth. Roedd gan Grosvenor, er enghraifft, 65 o blant ar restr aros am ofal hanner diwrnod (PM), ond roedd hefyd yn nodi 83 o swyddi gwag ar gyfer y rhan hon o'r gwasanaeth. Byddai hyn yn awgrymu nad yw bodolaeth rhestrau aros mewn mannau megis Grosvenor yn ganlyniad i ddiffyg gofal plant sydd ar gael. Esboniad arall posibl yw bod plant ar restr aros am nad ydynt yn ddigon hen eto i dderbyn lle, neu am eu bod yn cael lle yn rhywle arall hyd nes y bydd yr un y maent yn ei ddymuno ar gael.
- Y wardiau gyda'r nifer fwyaf o blant ar restrau aros am ofal dydd llawn oedd Rhiwabon (10), Gresffordd, Dwyrain a Gorllewin (10), Gorllewin Gwersyllt (6) a Marford a Hoseley (6)
- Yn gyffredinol, dywedodd darparwyr fod ganddynt nifer uchel o swyddi gwag, gyda 2,296 o swyddi gofal plant ar draws Wrecsam. Y wardiau sydd â'r nifer uchaf o swyddi gwag ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol yw Grosvenor, Holt a Brynyffynnon, ac ar gyfer gofal dydd llawn mae Owrtyn, Bryn Cefn, Parc Borrass a Holt. Un esboniad posibl am hyn yw'r tueddiadau o ostyngiad yn y boblogaeth sy'n arwain at lai o alw. Efallai mai esboniad arall am swyddi gwag

uchel yw nad yw llawer o rieni / gofawyr wedi dychwelyd i drefniadau gweithio cyn y pandemig eto, a allai effeithio ar y galw am ofal plant.

- Ar hyn o bryd, mae 330 o swyddi gwag ar gyfer Lleoliadau Addysg Gynnar, gyda nifer sylweddol hefyd yn Grosvenor ac Owrbyn.
- Ar hyn o bryd mae 13.6% o ddarparwyr gofal plant yn Wrecsam yn darparu eu gwasanaeth yn bennaf yn Gymraeg. Dywedodd 68.7% o ddarparwyr nad oes ganddynt unrhyw staff sy'n rhugl yn y Gymraeg. Dim ond 20 o ddarparwyr a ddywedodd eu bod yn darparu'r Cynnig Gweithredol Iaith Gymraeg ar hyn o bryd a dim ond 25 a ddywedodd eu bod yn gweithio tuag at ei ddarparu ar hyn o bryd. Byddai hyn yn awgrymu bod bwlch posibl o ran darpariaeth cyfrwng Gymraeg, gan fod yr holl leoliadau yr adroddir eu bod yn siarad Gymraeg yn bennaf wedi'u lleoli ar draws dim ond 8 ward. Fel y nodir yn yr adborth i'r ymgynghoriad gan y Mudiad Meithrin, mae recriwtio a chadw staff sy'n siarad Gymraeg yn rhugl ym maes gofal plant yn fater cenedlaethol ac nid yn lleol i Wrecsam.
- Dim ond 16.7% o warchodwyr plant a ymatebodd fod ganddynt berson dynodedig sy'n gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond mae mwy o warchodwyr plant yn gofalu am blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd. Mae hyn felly'n awgrymu bod rhywfaint o ddryswch ynghylch ystyr y cwestiwn a ofynnwyd fel rhan o'r SASS.
- Mae 30.6% o ddarparwyr nad ydynt yn darparu neu'n dweud ar hyn o bryd nad ydynt yn gallu darparu unrhyw gymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anabledau ar draws Wrecsam, tra bo 45.6% o leoliadau'n cefnogi pob math o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddywedodd nad ydynt yn darparu ar hyn o bryd neu nad ydynt yn gallu darparu unrhyw gefnogaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anabledau yn warchodwyr plant. Dim ond 10 lleoliad gofal dydd llawn a ddywedodd nad oeddent ar hyn o bryd yn gallu darparu unrhyw gefnogaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anabledau.
- Mae cymorth ar gael i rieni sydd â phlentyn ag anghenion dysgu ychwanegol a lleoliadau gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, drwy'r Panel Gofal Plant a Seibiant i Bobl Anabl. Mae data gan WFIS wedi dangos bod y gwasanaeth wedi ymdopi'n dda â chefnogi'r nifer uchel o blant ag ADY yn Wrecsam i ddod o hyd i leoliadau gofal plant addas. Mae hyn yn awgrymu, er bod nifer uchel o warchodwyr plant yn dweud nad ydynt yn gallu cefnogi plentyn ag ADY, bod digon o leoedd ar gael ar draws lleoliadau gofal dydd llawn i ateb y galw. Mae'r llefydd hyn yn cynnwys 7 gwarchodwr plant, 34 o leoliadau gofal dydd llawn a 24 o leoliadau gofal dydd sesiynol.
- Yn gyffredinol, mae ansawdd y ddarpariaeth yn Wrecsam yn dda, gyda dros 90% o'r darparwyr yn cael sgôr Da neu Wych ym mhob maes. Mae'r darparwyr hynny sy'n cael eu hystyried yn ddigonol mewn 2 ardal neu fwy wedi'u lleoli yng Ngogledd a De Wrecsam.
- Ar hyn o bryd mae 125 o ddarparwyr gofal plant Wrecsam wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, sy'n cynrychioli 86.2% o ddarparwyr gofal plant. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw gyllid o'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddarparu, ymatebodd 73.1% o'r darparwyr bod hynny yn cael ei gynnis. Nododd 65.3% o ddarparwyr fod y mwyafrif o'r rhieni sy'n defnyddio eu gwasanaethau ar hyn o bryd yn derbyn Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau Gofal Plant i gefnogi cost gofal plant. Mae hyn yn awgrymu bod galw mawr am leoedd Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth a Thalebau Gofal Plant, ond bod y galw hwnnw'n cael ei ddiwallu.



- Pris cyfartalog 50 awr o ofal yr wythnos i blentyn dan ddwy oed mewn meithrinfa yw £269.86 ar draws Prydain Fawr, neu £14,030. Gyda gwarchodwr plant i blentyn dan ddwy oed, mae'n £237.28 yr wythnos ar draws Prydain Fawr, neu £12,340 y flwyddyn. Yng Nghymru, pris cyfartalog 50 awr o ofal yr wythnos i blentyn dan ddwy oed mewn meithrinfa yw £246.79. Gyda gwarchodwr plant i blentyn dan ddwy oed, mae'n £230.69 yr wythnos. O ystyried y data a gasglwyd fel rhan o'r Cynllun, mae costau gofal plant yn Wrecsam yn is ar y cyfan nag ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr yn gyffredinol.
- Mae cyfanswm o 26 o ddarparwyr yn gallu darparu Dechrau'n Deg ar hyn o bryd.
- Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnig gofal gyda'r nos, dros nos neu ar benwythnosau, er ei bod yn ymddangos nad oes llawer o alw am hyn.

## 5. Canlyniadau o'r Arolwg Rhieni

### 5.1 Cyd-destun

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â rhieni a gofalwyr ar draws holl awdurdodau lleol Cymru drwy SmartSurvey ar-lein a gynhaliwyd rhwng 1 Hydref a 31 Hydref 2021. Bwriad yr arolwg oedd deall anghenion gofal plant rhieni/gofalwyr sydd â phlant 0-17 oed, yn enwedig eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau cofrestredig (h.y. gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) a gofal plant heb ei gofrestru (e.e. nanis, au pairs, clybiau gweithgareddau/chwaraeon ac ati). Derbyniwyd 296 o ymatebion gan rieni/gofalwyr ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sy'n cynrychioli 2.1% o'r holl ymatebwyr ledled Cymru.

Er bod nifer yr ymatebion gan rieni/gofalwyr wedi cynyddu 27.6% ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant blaenorol, dim ond cyfran fach o'r 135,466 o drigolion y sir yw'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein, ac felly dylid cydnabod cyfyngiadau'r data isod.

### 5.2 Nodweddion economaidd-gymdeithasol rhieni sy'n ymateb

O ran cyfrifoldebau gofalu/magu plant, cofnodwyd yr ymatebion canlynol pan ofynnwyd i rieni pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eu cartref orau.

Tabl 25 – Cyfrifoldebau gofalu rhieni

Ymateb	Canran o'r Cyfanswm Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'ticiwch bob un sy'n berthnasol'
Fi sy'n llwyr gyfrifol am fy mhlant	16.6%
Rwy'n rhannu cyfrifoldeb dros fy mhlant gyda rhywun sy'n byw gyda mi	78.4%
Rwy'n rhannu cyfrifoldeb dros fy mhlant gyda rhywun nad wyf yn byw gydag ef/hi	6.8%
Rwy'n ddarpar riant	0.7%
Rydw i'n ofalwr maeth	1.0%
Rwy'n nain neu daid	2.0%

<b>Arall</b>	1.4%
--------------	------

Fel y dangosir uchod, mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb dros eu plant gyda rhywun y maent yn byw gydag ef, gyda 16.6% yn unig riant. Cofnodwyd 1% fel gofalwyr maeth.

O ran statws cyflogaeth/hyfforddiant yr ymatebwyr, mae'r mwyafrif helaeth (77.4%) yn gyflogedig ar hyn o bryd, mae gan (82.7%) bartner sydd hefyd yn gyflogedig, gyda 5.8% ddim mewn swydd ond yn chwilio am waith.

Tabl 26 – Statws cyflogaeth/hyfforddiant rhieni sy'n ymateb

<b>Ymateb</b>	<b>Canran o'r Cyfanswm</b>	<b>Canran o'r Cyfanswm Partneriaid</b>
<b>Chwilio am Swydd ond ddim yn gweithio eto</b>	5.8%	0.4%
<b>Mewn gwaith</b>	77.4%	82.7%
<b>Yn hunangyflogedig</b>	5.8%	15.2%
<b>Mewn addysg neu hyfforddiant</b>	6.1%	0.8%
<b>Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd</b>	1.8%	0%
<b>Ddim yn gallu gweithio</b>	3.0%	0.8%

Pan ofynnwyd beth yw incwm gros eu cartref bob wythnos, dywedodd un rhan o bump o'r ymatebwyr (19.4%) fod incwm eu cartref rhwng £500 a £580. Dilynyd hyn gan £750-£999 a £581-£750 fel y ddau ymateb mwyaf cyffredin nesaf. Dywedodd 2.8% o bobl fod incwm wythnosol eu cartref yn llai na £100. Gweler Tabl O am ddadansoddiad o'r holl ymatebion.

Dywedodd 41 rhiant eu bod yn derbyn elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol, gyda 75 arall yn derbyn Talebau Gofal Plant/Gofal plant di-dreth. Mae dau riant yn hawlio Grant Gofal Plant i Fyfyrrwyr a dim ond un cyflogwr sy'n hawlio cyfraniad.

Tabl 27 – Cymorth gofal plant a dderbyniwyd gan rieni a ymatebodd

<b>Ymateb</b>	<b>Canran o'r Cyfanswm</b> <i>Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'ticiwch bob un sy'n berthnasol'</i>	<b>Swm</b>
<b>Elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol</b>	30.6%	41
<b>Talebau Gofal Plant/Gofal plant di-dreth</b>	56%	75
<b>Grant Gofal Plant i Fyfyrrwyr</b>	1.5%	2
<b>Cyfraniad cyflogwr</b>	0.7%	1
<b>Arall</b>	14.2%	19

Fel y nodir isod, nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr, 90.5% o'r ymatebwyr, i'r arolwg eu bod yn Gymry/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig, sy'n cyd-fynd yn fras â demograffeg Wrecsam (gweler Adran 3).

Tabl 28 – Ethnigrwydd / nodweddion cenedlaethol rhieni sy'n ymateb

Ymateb	Canran o'r Cyfanswm	Swm
<b>Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Iwerddon/Prydeinig</b>	<b>Gogledd</b> 90.5%	267
<b>Gwyddelig</b>	0.3%	1
<b>Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig</b>	0.0%	0
<b>Pwyleg</b>	1.0%	3
<b>Potriwgaleg</b>	1.0%	3
<b>Ewropeaidd</b>	0.7%	2
<b>Bwlgaraidd</b>	0.3%	1
<b>Sbaeneg</b>	0.3%	1
<b>Gwyn Dwyrain Ewrop/Americanaidd</b>	0.3%	1
<b>Unrhyw gefndir Gwyn arall, heb ei nodi</b>	2.7%	8
<b>Indiaidd</b>	0.0%	0
<b>Pacistanaidd</b>	0.0%	0
<b>Bangladeshaid</b>	0.0%	0
<b>Tsieineaidd</b>	0.0%	0
<b>Ffilipinaidd</b>	0.7%	2
<b>Unrhyw gefndir Asiaidd arall, dim manylion</b>	0.3%	1
<b>Gwyn a Du Caribiaidd</b>	0.3%	1
<b>Gwyn a Du Affricanaidd</b>	0.7%	2
<b>Gwyn ac Asiaidd</b>	0.7%	2
<b>Unrhyw gefndir Cymysg/Lluosog arall</b>	0.0%	0

Mae proffil economaidd-gymdeithasol yr ymatebwyr a welir uchod yn gynrychioliadol o ddemograffeg Wrecsam.

### 5.3 Defnydd presennol o ofal plant


Fel y nodir isod, cafwyd 39.5% o ymatebion gan rieni gyda dau blentyn, a 33.4% gan rieni gydag un plentyn.

Tabl 29 – Nifer y plant gan rieni sy'n ymateb

Ymateb	Canran o'r Cyfanswm	Swm
0	0.0%	0
1	33.4%	99
2	39.5%	117
3	12.2%	36
4	3.0%	9
5	1.0%	3
6	0.0%	0
7	0.0%	0
AMH	10.8%	32

Gofynnwyd i rieni a yw eu plentyn (plant 3-4 oed) yn cael lle addysg gynnar wedi'i ariannu mewn ysgol neu feithrinfa ar hyn o bryd. Yn ôl ymatebwyr i'r arolwg, mae 66.7% yn cael lle o'r fath yn yr un awdurdod lleol ag y maent yn byw, gyda dim ond 1.2% yn dweud eu bod yn cael lle addysg gynnar wedi'i ariannu mewn awdurdod lleol arall. Ni wnaeth gweddill y rhieni gwblhau'r cwestiwn hwn.

Siart 9 – Nifer y plant 3-4 oed sy'n manteisio ar leoadd addysg gynnar a ariennir mewn ysgolion a meithrinfeydd




A yw eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn cael lle addysg gynnar wedi'i ariannu yn yr ysgol neu'r feithrinfa?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Ydy yn yr un awdurdod lleol a lle dwi'n n byw	66.7%	56
Ydw yn awdurdod lleol gwahanol I lle dwi'n byw	1.2%	1
Am dechrau'n fuan	6.0%	5
Nac ydy	20.2%	17
Dim yn Siwr	1.2%	1
Dim yn Berthnasol	7.1%	6

Gofynnwyd i rieni hefyd a yw eu plant 3 neu 4 oed yn cael gofal plant a ariennir gan y llywodraeth drwy'r Cynnig Gofal Plant, a dywedodd 57.8% ohonynt eu bod yn yr un awdurdod lleol ag y maent yn byw ar hyn o bryd. Dywedodd 15.7% y gallent gael gafael ar y Cynnig Gofal Plant yn y dyfodol, gyda 10.8% heb unrhyw gynlluniau i fanteisio ar y Cynnig.

Siart 10 – Nifer y plant 3–4 oed sy'n defnyddio gofal plant a ariennir gan y llywodraeth




A yw eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn cael gofal plant a ariennir gan y llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant)?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Ydw, Yn yr un awdurdod lleol ag yr wyf yn byw	57.8%	48
Ydw mewn awdurdod lleol gwahanol i lle rwy'n byw	2.4%	2
Nac oes - ond efallai y bydd mynediad yn fuan/yn y dyfodol	15.7%	13
Na – heb unrhyw gynlluniau i wneud hynny	10.8%	9
Dim yn siwr	7.2%	6
Ddim yn berthnasol	9.6%	8

Dywedodd 79.8% o'r ymatebwyr nad oedd eu plentyn 2 neu 3 oed yn cael gofal plant Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, gyda 9.2% yn dweud bod eu plentyn yn cael gofal plant o'r fath ar hyn o bryd. Dim ond 2.8% oedd 'ddim yn siwr'.

A yw eich plentyn/plant 2 neu 3 oed yn cael gofal plant Dechrau'n Deg?




A yw eich plentyn/plant 2 neu 3 oed yn cael gofal plant Dechrau'n Deg?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Ydi	9.2%	10
Nac Ydi	79.8%	87
Dim yn siwr	2.8%	3
Amherthnasol	16.5%	18

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn dymuno cael gofal plant a ariennir gan y llywodraeth pan ddaw eu plentyn yn gymwys yn dair oed, dywedodd 93.8% 'Ydw', gyda dim ond 1.6% o'r ymatebwyr yn dweud 'Nac ydw'.



Ydych chi'n dymuno cael gofal plant a ariennir gan y llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant) pan fydd eich plentyn yn dod yn gymwys yn 3 oed?




Ydych chi'n dymuno cael gofal plant a ariennir gan y llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant) pan fydd eich plentyn yn dod yn gymwys yn 3 oed?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Ydw	93.8%	60
Nac ydw	1.6%	1
Dim yn siwr	4.7%	3
Ddim yn berthnasol	0.0%	0

O ran Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anabledd neu salwch tymor hir, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r rhieni a ymatebodd blentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anabledd (gweler isod). Fel y dangosir, nid oes gan 90.1% o rieni blentyn ag anabledd neu salwch tymor hir, ac nid oes gan 84.3% o rieni blentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.


A oes gan unrhyw un o'ch plant anabledd neu salwch tymor hir?



A oes gan unrhyw un o'ch plant anabledd neu salwch tymor hir?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Oes	9.5%	28
Nac Oes	90.1%	265
Gwell gen i ddim dweud	0.3%	1

A oes gan unrhyw un o'ch plant anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol (mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu)?



A oes gan unrhyw un o'ch plant anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol (mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu)?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Oes	15.7%	46
Nag Oes	84.3%	247
Gwell gen i ddim dweud	0.0%	0

O ran y ddarpariaeth a ddefnyddir gan rieni, rhestrwyd bod ystod o ddarparwyr a mathau o ofal plant yn cael eu defnyddio drwy'r arolwg. Fel y nodir yn y tablau isod, y ddarpariaeth gofal plant fwyaf cyffredin yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau yw teulu/frindiau (di-dâl), gyda meithrinfa ddydd breifat yr ail fwyaf cyffredin, eto yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau.

Tabl 30 – Nifer y rhieni sy'n ymateb sy'n defnyddio gwahanol fathau o ofal plant yn ystod y tymor

Math o ofal plant/addysg gynnar	Nifer y rhieni sy'n defnyddio'r math o ofal plant (yn ystod y tymor)
Gwarchodwr Plant	16
Cyn yr Ysgol/Clwb Brecwast	124
Clwb ar ôl Ysgol	109
Meithrinfa Ddydd Breifat	89
Meithrinfa Ysgol	17
Grŵp chwarae	25
Cylch Meithrin	14
Crèche gadael plant	2
Nanis	1
Au Pair	0
Teulu/Ffrindiau (Am dâl)	4
Teulu/Ffrindiau (Di-dâl)	148
Dim yn ystod y Tymor	19
Arall	9

Tabl 31 – Nifer y rhieni sy'n ymateb sy'n defnyddio gwahanol fathau o ofal plant yn ystod y gwyliau

Math o ofal plant/addysg gynnar	Nifer y rhieni sy'n defnyddio math o ofal plant (gwyliau)
Gwarchodwr Plant	15
Gofal Gwyliau	69
Meithrinfa Ddydd Breifat	90
Pre-Prep Ysgol (Breifat)	0
Grŵp chwarae	14
Cylch Meithrin	1
Crèche gadael plant	0
Nanis	1
Au Pair	0
Cynllun chwarae	7
Teulu/Ffrindiau (Am dâl)	5
Teulu/Ffrindiau (Di-dâl)	150
Dim yn ystod gwyliau ysgol	38
Arall	7

Wrth benderfynu faint o oriau ar gyfartaledd mae rhieni'n defnyddio gofal plant bob wythnos, mae'r tabl canlynol yn dangos faint o oriau, ar gyfartaledd, mae rhieni'n defnyddio gofal plant yn Wrecsam. Fel y dangosir, ar gyfartaledd mae rhieni'n defnyddio 19.1 awr o ofal plant yr wythnos yn Wrecsam yn ystod y tymor, a 26.1 awr yr wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol.

Tabl 32 – Nifer yr oriau yr wythnos y mae rhieni'n defnyddio gofal plant

Yn ystod y Tymor	Cyfartaledd
O leiaf (oriau)	17.7
Ar gyfartaledd (oriau)	19.1
Ar y mwyaf (oriau)	21.7
Yn ystod gwyliau ysgol	Cyfartaledd
O leiaf (oriau)	23
Ar gyfartaledd (oriau)	26.1
Ar y mwyaf (oriau)	30


Roedd y rhan fwyaf o rieni yn talu rhwng £10 a £199 am eu gofal plant bob wythnos. Gyda nifer fach (8) yn talu dros £300.

Tabl 33 – Y swm y mae rhieni a ymatebodd yn ei dalu am ofal plant bob wythnos

Cost	Nifer y Rhieni
£ 0	54
£1 - £10	19

<b>£10 - £49</b>	75
<b>£50 - £99</b>	50
<b>£100 - £199</b>	53
<b>£200 - £299</b>	16
<b>£300+</b>	8

O ran ansawdd y ddarpariaeth, mae'r rhan fwyaf o rieni'n hapus, fel y dangosir isod:



Pa mor fodlon ydych chi â'ch darparwr gofal plant presennol?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Hapus lawn	60.4%	166
Eitha hapus	29.5%	81
Eitha Anhapus	1.5%	4
Anhapus iawn	1.8%	5
Amherthnasol	6.9%	19

O'r rhai a ddywedodd eu bod yn anhapus â'u trefniadau gofal plant, fforddiadwyedd oedd y brif broblem, wedi'i ddilyn gan ddiffyg darpariaethau o safon. Dim ond 4 ymatebydd a ddywedodd fod diffyg darpariaeth o ansawdd yn broblem, sy'n annigonol i awgrymu bod hyn yn broblem gyda gofal plant yn gyffredinol ar draws Wrecsam. Mae 133 o 147 neu 90.5% o ddarparwyr yn cael sgôr Da neu

Wych ym mhob un o'r Meysydd Adolygu Ansawdd Gofal ledled Wrecsam. Mae 4 darparwr sydd wedi'u graddio'n Ddigonol mewn 2 faes neu fwy, wedi'u lleoli yng Ngogledd a De Wrecsam. Byddai hyn wedyn yn awgrymu bod ansawdd cyffredinol gofal plant yn Wrecsam yn dda neu'n ardderchog.

Tabl 34 – Ffyrdd yr adroddodd rhieni y gellid gwella mynediad at ofal plant

Ymateb	Canran Cyfanswm	o'r Swm
Mwy o oriau ar gael	12.0%	3
Ymestyn oriau agor – yn gynnar yn y bore	8.0%	2
Ymestyn oriau agor – nosweithiau	0%	0
Ymestyn oriau agor – ar benwythnosau	4.0%	1
Ymestyn oriau agor – gofal dros nos	0%	0
Sesiynau mwy hyblyg	8.0%	2
Mwy fforddiadwy	28.0%	7
Lleoliadau gwahanol	4.0%	1
Gofal plant sy'n well ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol fy mhlentyn	4.0%	1
Darpariaethau o well ansawdd	16.0%	4
Dim angen gwelliannau	4.0%	1
Arall	12.0%	3


Ar gyfer rhieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd, darparwyd amrywiaeth o resymau, fel y nodir yn y tabl isod.

Tabl 35 – Rhesymau pam nad yw rhieni sy'n ymateb yn cael gofal plant ar hyn o bryd

Ymateb	Canran Cyfanswm	o'r Swm
Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr, ac rydym yn aros i le fod ar gael	2.2%	4
Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o'r teulu neu ffrind	18.5%	33
Rwy'n dewis peidio â chael mynediad at unrhyw ofal plant	2.8%	5
Rwy'n rhiant sy'n aros gartref ac nid oes angen gofal plant arnaf	5.1%	9
Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain	2.2%	4
Does dim gofal plant o ansawdd digonol	3.9%	7
Nid oes darpariaeth Gymraeg Addas	0.6%	1

<b>Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg</b>	0.0%	0
<b>Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion</b>	6.2%	11
<b>Mae cost gofal plant yn rhy ddrud</b>	25.3%	45
<b>Mae amseroedd gofal plant yn anaddas</b>	5.6%	10
<b>Does dim gofal plant ar gael sy'n addas i oedran fy mhlentyn</b>	5.6%	10
<b>Mae problem gyda thrafnidiaeth</b>	2.2%	4
<b>Does dim gofal plant lle mae angen iddo fod</b>	2.2%	4
<b>Does dim gofal plant sy'n gallu diwallu anghenion penodol fy mhlentyn</b>	3.4%	6
<b>Dim ond ar sail ad hoc y byddaf yn defnyddio gofal plant, ac mae'n amhosibl cynllunio</b>	5.1%	9
<b>Arall</b>	9.0%	16

Gofynnwyd ymhellach i rieni a ydynt yn cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r ymatebion isod yn cael eu darparu.




Ydych chi'n defnyddio gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg?

Ateb dewis	Ymateb	Cyfanswm
	Canran	Ymatebb

Ydy	11.8%	24
Nac Ydy	82.4%	168
Dim yn siwr	5.9%	12

Fel y dangosir uchod, mae 11.8% o rieni yn cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda lluosogrwydd (82.4%) ddim yn cael mynediad drwy'r cyfrwng hwn.

Ar gyfer y rhai a nododd 'Na', dywedodd 6.8% y byddent yn hoffi cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod).



Os na, hoffech chi gael gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymateb
Byddwn	6.8%	12
Efallai	14.2%	25
Na byddwn	71.0%	125
Dim yn siwr	8.0%	14

O ran rhwystrau i ofal plant cyfrwng Cymraeg, nodwyd mai'r ffactorau canlynol oedd y prif broblemau yr oedd rhieni'n eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar ddarpariaeth. Fel y dangosir, argaeledd yw'r prif rwystr i rieni.

Tabl 36 – Rhwystrau rhag cael gafael ar ofal plant cyfrwng Cymraeg



Ymateb	% Ie, o bwy atebodd ie / efallai Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'ticiwch bob un sy'n berthnasol'	Swm
Pellter	10.9%	6
Argaeledd	40.0%	22
Ansawdd gofal	5.5%	3
Gallu iaith staff	7.3%	4
Cost	10.9%	6
Dim digon o oriau gofal	12.7%	7
Arall	12.7%	7

Yn ychwanegol at hyn, gofynnwyd i rieni a ydynt yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Yn ôl yr arolwg, cofnododd 107 eu bod yn gallu deall Cymraeg, gyda 55 yn dweud eu bod yn gallu siarad, 64 yn darllen, a 42 yn ysgrifennu yn Gymraeg.

Tabl 37 – Dealltwriaeth o'r Gymraeg ymysg y rhieni a ymatebodd

Ymateb	Canran yr ymatebwyr Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'ticiwch bob un sy'n berthnasol'	Swm
Deall	39.9%	107
Siarad	20.5%	55
Darllen	23.9%	64
Ysgrifennu	15.7%	42

Gofynnwyd i'r rhieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno ag amrywiaeth o ddatganiadau ynghylch darpariaeth eu plentyn. Ceir manylion yr ymatebion yn Nhabl P (Atodiad 2). Fel y dangoswyd, roedd y rhan fwyaf o rieni'n cytuno eu bod yn fodlon â gofal plant yn ystod y tymor a'u bod yn credu bod ansawdd y gofal plant yn uchel.

Fel y mae Tabl P yn dangos, mae cryfderau clir mewn darpariaeth gofal plant, o safbwynt rhiant, ochr yn ochr â meysydd allweddol i'w gwella. Er enghraifft, mae rhieni'n cytuno'n llwyr bod y ddarpariaeth gofal plant o ansawdd uchel ac yn fodlon ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth hefyd yn cytuno bod gofal plant yn rhy ddrud, ond hefyd yn teimlo nad ydynt yn gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant.

Dywedodd tua 45.1% o rieni fod gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith, gyda 17.1% arall yn dweud bod costau gofal plant wedi eu hatal rhag gweithio neu gael swydd yn gyfan gwbl.


Tabl 38 – Gofal plant fel rhwystr i weithio

<b>Ymateb</b>	<b>Canran yr ymatebwyr Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'ticiwch bob un sy'n berthnasol'</b>	<b>Swm</b>
<b>Problemau a achoswyd yn y gwaith</b>	45.1%	129
<b>Atal parhad gwaith</b>	15.0%	43
<b>Eich atal rhag gweithio / cael swydd</b>	17.1%	49
<b>Eich atal rhag hyfforddi</b>	14.3%	41
<b>Arall</b>	8.4%	24

## 5.4 Galw am ofal plant yn y dyfodol

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr ragweld a fydd angen mwy neu lai o ofal plant arnynt yn ystod y ddwy flynedd nesaf, a darparwyd yr ymatebion canlynol ar eu cyfer.

A ydych yn rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod y ddwy flynedd nesaf?




A ydych yn rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod y ddwy flynedd nesaf?

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Mwy	40.5%	120
Aros yr un fath	35.8%	106
Less	15.5%	46
Dim yn siwr/Dim yn siwr	8.1%	24

O'r rheini a oedd yn disgwyl defnyddio llai o ofal plant, plant yn mynd yn hŷn oedd yr ymateb mwyaf cyffredin, gyda 2.2% o rieni'n disgwyl gweithio/astudio llai o oriau a 13% o rieni'n disgwyl gweithio/astudio mwy o gartref. Dywedodd 4.3% o rieni eu bod yn ceisio treulio mwy o amser gyda'u teulu.

Rydych chi wedi sôn y byddwch chi'n defnyddio llai o ofal plant, pam hynny? Ticiwch bob un sy'n berthnasol




Rydych chi wedi sôn y byddwch chi'n defnyddio llai o ofal plant, pam hynny? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Plentyn yn hyn	95.7%	44
Disgwyliwch i weithio/astudio llai o oriau	2.2%	1
Disgwyl i weithio/astudio o gartref Mwy	13.0%	6
Trio gael mwy o amser gyda fy'n nheulu	4.3%	2
Pryderon ynghylch COVID-19 / heintiau	4.3%	2
Pryder am darfu COVID-19 i gwasanaethau/cau	0.0%	0
Arall (esboniwch)	4.3%	2

O'r rhai sy'n disgwyl y bydd angen mwy o ofal plant arnynt, roedd y rhan fwyaf yn disgwyl y byddai eu hangen cyn ysgol, gyda chlwb ar ôl ysgol yn dilyn yn agos (gweler isod).

Soniasoch y byddwch yn defnyddio mwy o ofal plant, pa fath o ofal neu addysg gynnar yr ydych yn rhagweld y byddwch yn defnyddio mwy ohono yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?  
Ticiwch bob un sy'n berthnasol



Soniasoch y byddwch yn defnyddio mwy o ofal plant, pa fath o ofal neu addysg gynnar yr ydych yn rhagweld y byddwch yn defnyddio mwy ohono yn yr ychydig flynyddoedd nesaf? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Ateb dewis	Ymateb Canran	Cyfanswm Ymatebb
Gwarchodwr plant	15.1%	18
Clwb Brecwast	58.0%	69
Clwb ar ol ysgol	56.3%	67
Meithrinfa Ddydd Breifat	39.5%	47
Meithrinfa Ysgol	25.2%	30
Meithrin	26.1%	31
Cylch Meithrin	13.4%	16
Crèche Gollwng	1.7%	2
Nani	0.8%	1
Au Pair	0.0%	0
Ysgol Syn-Baratoi (Preifat).	0.0%	0

Clwb gwyliau	29.4%	35
Teulu/ffrindiau(cyflogedig)	2.5%	3
Teulu/ffrindiau(di tal)	45.4%	54
Amherthnasol	0.8%	1

## 5.5 Prif ganfyddiadau'r arolwg rhieni

- Dywedodd y rhan fwyaf o rieni (60.4%) eu bod yn 'fodlon iawn' â gofal plant yn eu hardal, gyda 29.5% yn 'eithaf bodlon'. Roedd 1.8% o rieni yn 'anfodlon iawn'.
- Dywedodd nifer sylweddol o rieni fod gofal plant yn achosi problemau yn y gwaith a dywedodd rhai fod gofal plant wedi eu hatal rhag parhau i weithio neu hyd yn oed ddechrau gweithio/cael swydd yn gyfan gwbl.
- Roedd 40.5% o'r rhieni a ymatebodd yn rhagweld y byddai angen mwy o ofal plant arnynt yn ystod y 2 flynedd nesaf. Bydd y rhan fwyaf o rieni a ddywedodd y byddant yn cynyddu eu defnydd o ofal plant yn edrych yn benodol i'w ddefnyddio (yn nhrefn amllder) cyn ac ar ôl ysgol, meithrinfeydd dydd preifat, clybiau gwyliau a gofal plant anffurfiol.
- Dim ond 20.5% o rieni a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, sy'n is na chanran Wrecsam yn gyffredinol. Mae 11.8% o rieni sy'n ymateb yn cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.
- Nododd rhieni mai fforddiadwyedd yw'r prif rwystr, gan olygu bod yn well gan rieni ddefnyddio gofal plant anffurfiol fel teulu a ffrindiau.
- Mae ymatebion gan rieni yn awgrymu y gellid gwella gofal plant yn gyffredinol gyda chostau mwy fforddiadwy, gwell ansawdd, a mwy o oriau ar gael. Fodd bynnag, er mai gwell ansawdd oedd yr ail ateb mwyaf cyffredin, dim ond 4 rhiant a ddywedodd hyn. Nid yw'r galw hwn am well ansawdd yn cyd-fynd â sgoriau arolygu presennol lleoliadau, gyda 90.5% o ddarpariaethau ar draws Wrecsam yn cael 'Da' neu 'Rhagorol' ym mhob un o'r Meysydd Adolygu Ansawdd Gofal. Mae hyn, gyda'r nifer fach o ymatebion a ddywedodd y gellid gwella ansawdd, yn awgrymu nad yw argaeledd darpariaeth o ansawdd yn broblem gyffredin ar draws Wrecsam.

## 6. Canlyniadau Arolygon Plant

### 6.1 Cyd-destun

Er mwyn cefnogi dealltwriaeth o ddarpariaeth gofal plant ar draws y sir, datblygwyd arolwg i ymgynghori â phlant er mwyn cael eu barn am ofal plant. Cafodd yr arolwg ei greu drwy Eich Llais ac roedd ar gael i'w gwblhau rhwng 22 Hydref a 15 Tachwedd. Hyrwyddwyd yr arolwg i rieni drwy lwyfannau cyfryngau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam a thrwy ddarparwyr gofal plant. Roedd aelodau'r Tîm Gofal Plant hefyd yn mynychu lleoliadau gofal plant i gynnal yr arolygon yn uniongyrchol gyda phlant yn y lleoliadau. Dim ond 37 o blant a ymatebodd i'r arolwg ond ni atebodd

pob un bob cwestiwn, gan ei gwneud yn anodd dod i unrhyw gasgliadau cyffredinol ynghylch gofal plant ar draws y sir.

Gyda hynny'n cael ei ystyried, prif ganfyddiadau'r arolygon plant yw:

- Mae pob plentyn a atebodd yr arolwg yn mwynhau eu hamser yn eu lleoliad gofal plant.
- Mae gan bron pob plentyn gyfle i chwarae y tu mewn a'r tu allan.
- Mae bron pob plentyn yn cael cyfle i chwarae gyda'u ffrindiau.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dod i ofal plant oherwydd bod eu rhieni yn y gwaith.

Roedd oedran y plant a ymatebodd yn amrywio rhwng 0 a 8 oed. Dywedodd 24 o ymatebwyr eu bod rhwng 0 a 4 oed, gyda dim ond pump o ymatebwyr yn dweud eu bod dros 8 oed a phedwar rhwng 5-7 oed.

## 6.2 Dadansoddiad o'r ymatebion

Y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i blant oedd pa fath o leoliad yr oeddent yn ei fynychu. Dywedodd 18 o'r 37 eu bod yn mynychu'r feithrinfa ddydd, sef yr ateb a gafodd y sgôr uchaf. Dywedodd chwech eu bod yn mynychu gwarchodwr plant a dywedodd chwech eu bod yn mynychu clwb ar ôl ysgol. Ni ddywedodd unrhyw blentyn ei fod yn mynychu gofal cofleidiol.

Tabl 39 – Mathau o leoliadau a fynychir gan blant sy'n ymateb

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr ymatebwyr
Gwarchodwr Plant	6	20%
Grŵp chwarae	2	5.71%
Cofleidiol	0	0%
Meithrinfa Ddydd	18	51.43%
Clwb ar ôl Ysgol	6	17.14%
Clwb Gwyliau	2	5.71%

O ran eu barn am eu lleoliadau gofal plant, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 100% o blant yn dweud eu bod yn cael hwyl gyda gofal plant a 100% yn dweud bod ganddynt lawer o bethau i chwarae gyda nhw. Hefyd, dywedodd pob plentyn ond un fod ganddynt yr opsiwn i chwarae y tu mewn a'r tu allan a'u bod yn gallu chwarae gyda ffrindiau. Pan ofynnwyd iddynt yn benodol sut yr oeddent yn teimlo mewn gofal plant, dim ond 18 o blant a ymatebodd. O'r 18 hyn, dywedodd 11 eu bod yn teimlo'n hapus, dywedodd pedwar eu bod yn teimlo'n iawn a dywedodd 2 nad oeddent yn gwybod. Mae'r ymatebion hyn yn dangos bod plant, yn ôl yr arolwg, yn gweld eu lleoliadau gofal plant mewn goleuni cadarnhaol. Fodd bynnag, gan fod cyn lleied o ymatebion, mae'n amhosibl cyffredinoli mai dyma sut mae plant yn teimlo am ofal plant yn gyffredinol ar draws Wrecsam.

Yna gofynnwyd i'r plant beth roeddent yn hoffi ei wneud pan oeddent mewn gofal plant. Darparwyd amrywiaeth o atebion megis:

- Chwarae gyda theganau/doliau.
- Chwarae y tu allan.

- Chwarae gyda ffrindiau.
- Celf a chrefft.
- Canu.
- Darllen/dweud straeon.
- Chwarae gydag anifeiliaid.
- Seiclo.
- Chwarae gydag offerynnau.

Pan ofynnwyd iddynt pam y daethant i ofal plant, dywedodd y rhan fwyaf mai'r rheswm am hynny oedd bod eu rhieni'n gweithio, gyda 10 o bob 18 plentyn yn darparu'r ateb hwn. Roedd atebion eraill yn cynnwys chwarae gyda ffrindiau a chymdeithasu, chwarae gyda theganau, ac ar gyfer eu lles. Mae hyn yn awgrymu bod gofal plant a chlybiau y tu allan i'r ysgol yn bwysig er mwyn i rieni allu cyflawni eu hymrwymadau gwaith.

Yna gofynnwyd cwestiynau ychwanegol ond roedd nifer y plant a ymatebodd wedi gostwng yn sylweddol i oddeutu 3-5 ar gyfer pob cwestiwn. Roedd y cwestiynau'n cynnwys a fydden nhw'n hoffi chwarae mwy y tu allan, a oedd mwy o weithgareddau i'w gwneud y tu mewn neu'r tu allan, a beth fydden nhw'n hoffi ei newid am ofal plant. Oherwydd y gyfradd ymateb isel, ni ellid casglu unrhyw ddata gwirioneddol arwyddocaol o'r cwestiynau hyn.



## **7. Partneriaeth a Gweithio Trawsffiniol**

Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, sefydlwyd cysylltiadau gydag amrywiol bartneriaid sy'n cydweithio i ddarparu cefnogaeth effeithiol i'r sector gofal plant. Rhennir gwybodaeth ac adnoddau lle bo hynny'n briodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth y gwasanaeth am y sector yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r Tîm Gofal Plant yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam i gasglu data am y sector gofal plant yn Wrecsam i sicrhau bod y cofnodion a gedwir yn gywir, a bod y cyngor a'r arweiniad ar gyfer rhieni a darparwyr yn gyson ac yn briodol.

Mae Cyngor Wrecsam hefyd yn cynnal y Bartneriaeth Datblygiad Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant gyda chynrychiolwyr o Addysg, Dechrau'n Deg, Iechyd,artneriaid CWLWM, Chwarae, Coleg Cambria ac AVOW. Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod unwaith y tymor i adolygu'r sector gofal plant ac i ystyried meysydd i'w datblygu neu i roi sylw i feysydd y tynnir sylw atynt oherwydd pryder.

Mae Tîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithio'n agos gyda phartneriaid CWLWM i gefnogi'r sector gofal plant yn Wrecsam yn effeithiol.

### **7.1 Ymgynghoriad Partneriaid Dysgu a Gweithio Cydfuddiannol Gofal Plant Cymru (CWLWM)**

#### **Blynnyddoedd Cynnar Cymru**

Mae'r ALL yn gweithio'n galed i gefnogi darparwyr gofal plant ledled y sir, gan nodi meysydd o angen a gweithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i sefydlu a chefnogi darpariaeth newydd i bontio unrhyw fylchau. Mae'r gefnogaeth y mae'r ALL yn ei rhoi i ddarparwyr yn rhagorol, maent hefyd yn gweithio'n dda iawn ochr yn ochr â'r sector gwirfoddol a phartneriaid CWLWM.

Mae cryn gymysgedd o ddarpariaeth yn Wrecsam, gyda llawer o leoliadau'n elusennau cofrestredig, a'r math hwn o sefydliad/statws cyfreithiol sy'n helpu i gadw gofal plant yn fforddiadwy i'r gymuned. Mae'r lleoliadau hyn wedi elwa o gael cefnogaeth ar y cyd gan y corff ymbarél a thîm gofal plant yr ALL, sy'n cefnogi'r darparwyr hyn gyda chanllawiau, grantiau, adnoddau ac ati, ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu at sicrhau eu bod o ansawdd da, yn gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar y gymuned.

Byddai'n dda gweld mwy o ddarparwyr yn croesawu'r amrywiol gynlluniau Sicrhau Ansawdd sydd ar gael, rhai ohonynt yn cael eu darparu gan bartneriaid CWLWM. Mae'r cynlluniau hyn yn annog darparwyr i feddwl am elfennau o'u hymarfer a meysydd i'w pwysu a mesur yn ddyfnach. Mae'r gwobrau hyn yn ffordd dda o ddangos tystiolaeth o ansawdd.

Mae ALL Wrecsam bob amser wedi cefnogi plant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol, maent yn darparu cynllun atgyfeirio, cyllid ar gyfer gweithwyr cefnogi a chymorth perthnasol i rieni/gofalwyr ayb. Mae'r holl ddarparwyr gofal plant yn gynhwysol ac yn gweithio gyda phob parti sy'n gysylltiedig i sicrhau bod eu darpariaeth ar gael i bob plentyn beth bynnag fo'u hangen ychwanegol. Mae ALL Wrecsam yn gweinyddu llawer o grantiau i gefnogi cynhwysiant, sy'n amhrisiadwy i leoliadau.

Gweithiodd swyddogion ALL Wrecsam yn eithriadol o galed pan sefydlwyd y cynllun Cynnig Gofal Plant i roi'r holl weithdrefnau ar waith i gefnogi systemau gweinyddu Wrecsam ac i gefnogi pob teulu cymwys. Roedd llawer o ddarparwyr wedi ymestyn eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio, gydag eraill wedi uno er mwyn symleiddio gwasanaethau. Mae grantiau'r ALL wedi

darparu cymorth, offer ac adnoddau y mae mawr eu hangen i gefnogi'r Cynnig Gofal Plant, ac mae eu paneli'n gynhwysol ac yn deg ym mhob maes o weinyddu grantiau.

### **Mudiad Meithrin**

Mae CBSW yn ariannu swyddog Ti a Fi a swyddog Croesi'r Bont. Mae'r swyddog Ti a Fi yn gweithio o fewn yr awdurdod i redeg y grwpiau Ti a Fi, a'r rhain yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer Rhieni Cymraeg. Mae Swyddog Croesi'r Bont yn gweithio gyda'r Cylchoedd Meithrin i gyflwyno cynllun Croesi'r Bont sef cynllun trochi iaith Mudiad Meithrin. Mae Mudiad Meithrin drwy Gymraeg i Blant a Chlwb Cwtsh yn gweithio gyda Rhieni i'w cefnogi i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae Mudiad Meithrin hefyd yn gweithio gyda Rhieni/gofalwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i wella sgiliau Cymraeg o fewn amgylchedd y cartref.

Mae gan y Mudiad Meithrin sedd hefyd ar fforwm y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a'r bartneriaeth Datblygiad Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. O fewn Wreccsam mae cysylltiad clir rhwng addysg a gofal plant a chydabyddir bod angen un i ategu'r llall.

Mae staffio yn broblem enfawr ar hyn o bryd. Mae heriau o ran recriwtio a chadw staff sydd â'r cymwysterau priodol ac sydd hefyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl er mwyn gallu defnyddio'r dull trochi llawn.

Er enghraifft, mae un darparwr gofal plant yn Wreccsam wedi gorfod cau dros dro oherwydd bod yr arweinydd wedi cymryd cyfnod o absenoldeb. Yn anffodus, nid yw'r lleoliad wedi gallu recriwtio rhywun addas i gyflenwi ac, erbyn hyn, nid yw'n gallu gweithredu hyd nes y deuir o hyd i rywun addas i gymryd ei le, neu y bydd yr arweinydd yn dychwelyd o'r absenoldeb. Ar hyn o bryd, mae'r holl leoliadau eraill wedi'u staffio'n briodol, ond nid oes hyblygrwydd pe na bai aelod o staff ar gael i weithio am unrhyw reswm. Gallai hyn olygu bod angen i leoliadau ychwanegol gau os na ellir cynnal cymarebau staff i blant.

Bydd Mudiad Meithrin yn gweithio gyda Choleg Cambria i 'chwalu mythau' ynghylch rhai o'r pryderon sydd gan fyfyrwyr o ran gweithio mewn lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae pryderon ynghylch am ba hyd y mae Cylch yn para ac a oes digon o oriau i gynnal cyflogaeth amser llawn, a hefyd lefel ofynnol sgiliau iaith Gymraeg myfyrwyr i weithio mewn Cylch, yn cael sylw er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n ofynnol a pha gyfleoedd gyrfa sydd ar gael mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Mae Ysgol Morgan Llwyd hefyd yn rhedeg y cwrs gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio e-ysgol i gynyddu'r gronfa bosibl o staff yn y dyfodol.

Er y nodir nad yw COVID-19 wedi effeithio cymaint ar ofal plant ag a ofnir ar y dechrau, mae morâl y staff yn isel ac mae'n bryder nad ydynt wedi cael digon o gydnabyddiaeth am y gwaith y maent wedi'i gwblhau, ac yn parhau i'w gwblhau, drwy gydol y pandemig. Mae'r cymariaethau wedi cael eu gwneud rhwng staff gofal plant a staff addysg a'r angen i ofal plant aros ar agor wrth i ysgolion gau. Mae hyn wedi golygu bod darparwyr gofal plant yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon.

Fodd bynnag, mae pob lleoliad (ac eithrio'r lleoliad y cyfeirir ato uchod) wedi ailagor ac mae nifer y plant sy'n mynychu yn dda. Dylid nodi hefyd, er gwaethaf Covid-19 a'r materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff, bod Mudiad Meithrin wedi gallu agor darpariaeth gofal plant newydd a fydd

yn cael ei lleoli yn ysgol cyfrwng Cymraeg newydd Ysgol yr 21ain Ganrif yn Borrás. Mae'r lleoliad hwn yn cael ei gynnal dros dro yn swyddfeydd Mudiad Meithrin yn Wrecsam.


Dylid nodi hefyd bod pethau cadarnhaol wedi codi yn ystod Covid-19. Roedd y sector yn gallu cael gafael ar swm sylweddol o gyllid i gefnogi gofal plant drwy gydol y pandemig. Hefyd, o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol, a chynlluniau fel ffyrlo, bu cynnydd yn yr ymgysylltu â phwyllgorau ac mae nifer fawr o bwyllgorau wedi ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Elfen gadarnhaol arall yw bod y gweithlu wedi gallu cael a chwblhau llawer iawn o hyfforddiant ar-lein, sydd wedi gwella sgiliau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

## 7.2 Trawsffiniol

Fel y gwelir yn y map isod, mae Wrecsam yn ffinio â siroedd Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Powys, Swydd Amwythig a Swydd Gaer. Mae cysylltiadau gwaith cryf wedi cael eu datblygu rhwng CBSW ac Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru. Mae'r perthnasoedd gwaith hyn wedi cael eu cryfhau ymhellach drwy gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant sydd wedi hwyluso rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Ymdrinnir ag unrhyw faterion trawsffiniol yn brydlon ac mae siroedd y gororau yn gweithio'n agos i sicrhau bod dull cyson o weithredu yng nghyswllt cynlluniau a chyllid Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Mae cytundeb trawsffiniol ar waith gyda Sir y Fflint i blant o siroedd eraill gael mynediad at y Cynnig Gofal Plant ac Addysg Gynnar yn Wrecsam. Hefyd, gellir ariannu'r Cynnig Gofal Plant er mwyn i blant Wrecsam gael mynediad at ofal plant mewn unrhyw awdurdod ar y ffin.

Mae Arweinydd Gofal Plant CBSW yn mynychu'r fforwm AWARE i drafod holl elfennau'r sector gofal plant, ac yn cwrdd bob chwarter â swyddogion arweiniol lleol Gogledd Cymru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Mae'r data ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn cael ei rannu rhwng Sir y Fflint a Wrecsam ac mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion yn gyflym ac yn effeithlon.

Map yn dangos Wrecsam a siroedd cyfagos



Siroedd cyfagos

- sir Ddinbych
- sir Conwy
- sir Amwythig
- sir y Fflint
- Cilgwri
- sir Gaer

## 8. Ateb i'r Cwestiwn Allweddol

Mae'r wybodaeth uchod a'r adborth i'r ymgynghoriad wedi darparu atebion i'r cwestiwn allweddol isod.

### 8.1 A oes digon o lefydd gofal plant yn Wrecsam – nawr ac yn y dyfodol?

**Mae nifer digonol o leoedd gofal plant ar hyn o bryd:**

- Yn gyffredinol, dywedodd darparwyr fod ganddynt nifer uchel o swyddi gwag, gyda 2,296 o swyddi gofal plant ar draws Wrecsam. Y wardiau gyda'r nifer uchaf o swyddi gwag ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol oedd Grosvenor, Holt a Brynyffynnon, ac ar gyfer gofal dydd llawn Owrtyn, Bryn Cefn, Parc Borrás, a Holt.
- Dywedodd rhai wardiau fod ganddynt restrau aros ar gyfer rhai rhannau o'u gwasanaeth ond bod ganddynt swyddi gwag ar gyfer y rhan hon o'r gwasanaeth hefyd. Roedd gan Grosvenor, er enghraifft, 65 o blant ar restr aros am ofal hanner diwrnod (PM), ond roedd hefyd yn nodi 83 o swyddi gwag ar gyfer y rhan hon o'r gwasanaeth. Byddai hyn yn awgrymu nad yw bodolaeth rhestrau aros mewn manau megis Grosvenor yn ganlyniad i ddiffyg gofal plant sydd ar gael. Esboniad arall posibl yw bod plant ar restr aros am nad ydynt yn ddigon hen eto i dderbyn lle, neu am eu bod yn cael lle yn rhywle arall.
- Ategir hyn gan yr arolwg rhieni lle dim ond 2.2.% o rieni a ddywedodd fod eu plentyn ar restr aros.

**Mae'n debygol y bydd digon o leoedd gofal plant yn y dyfodol:**

- Mae data demograffig yn awgrymu y bydd y galw am ofal plant yn lleihau ar draws Wrecsam dros y blynyddoedd nesaf. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae poblogaeth Wrecsam wedi gostwng, mae cyfraddau genedigaethau byw wedi gostwng ac mae nifer yr achosion o fudo net wedi gostwng. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn rhagweld y bydd nifer y plant rhwng 0 a 4 oed yn gostwng dros y blynyddoedd nesaf. Gan fod Wrecsam yn gallu ateb y galw presennol, byddai hyn yn awgrymu y dylai barhau i allu ateb y galw petai'r galw yn lleihau.
- Fodd bynnag, mae rhai ffactorau a all arwain at gynnydd yn y galw.
